

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

AROLWG RHANDDEILIAID 2008

Chwefror - Mawrth 2008

Adroddiad ar y Prif Ganfyddiadau

Paratowyd ar gyfer: **Llywodraeth Cynulliad Cymru**
(Swyddfa'r Prif Swyddog
Ymchwil Gymdeithasol)

Cyswllt: Becca Sarasin

Paratowyd gan: **Beaufort Research**
Cyswllt asiantaeth: Owen Knight / Chris Timmins

2 Plas yr Amgueddfa
Caerdydd
CF10 3BG

Ffôn: (029) 2037 8565
Ffacs: (029) 2037 0600
E-bost: owen@beaufortresearch.co.uk
Gwefan: www.beaufortresearch.co.uk

(h) Beaufort Research Ltd 2008

B2791 / CT-NL-OK / 11^{ain} Gorffennaf 2008



Crynodeb Gweithredol	1
-----------------------------------	----------

1. Cyflwyniad	6
----------------------------	----------

2. Cydweithio â Swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru	12
---	-----------

3. Canfyddiadau o Swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru.....	19
--	-----------

4. Ffactorau sy'n gwella Boddhad gydag Ymgysylltiad â Rhanddeiliaid.....	37
---	-----------

<i>Atodiad A: Canfyddiadau o Swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ôl Adran.....</i>	<i>43</i>
--	-----------

<i>Atodiad B: Ffactorau Llwyddiant Critigol: Canfyddiadau yn ôl Adran</i>	<i>50</i>
---	-----------

<i>Atodiad C: Dadansoddiad o'r Ffactorau Allweddol: Canfyddiadau yn ôl Adran.....</i>	<i>57</i>
---	-----------

<i>Atodiad D: Rhanddeiliaid Llai Diweddar: Canfyddiadau.....</i>	<i>59</i>
--	-----------

<i>Atodiad E: Methodoleg.....</i>	<i>61</i>
-----------------------------------	-----------

<i>Atodiad F: Dadansoddi Amryw Ffactorau</i>	<i>69</i>
--	-----------

<i>Atodiad G: Proffil Sampl.....</i>	<i>84</i>
--------------------------------------	-----------

<i>Atodiad H: Llythyrau a anfonwyd ymlaen llaw.....</i>	<i>87</i>
---	-----------

<i>Atodiad I: Holiadur yr Arolwg</i>	<i>95</i>
--	-----------

CRYNODEB GWEITHREDOL

Cefndir a Methodoleg

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ('Llywodraeth y Cynulliad' o hyn ymlaen yn cydweithio ag amrywiaeth eang o randdeiliaid wrth ddatblygu, gweithredu a chyflawni polisi. Mae rhoi cyfle i randdeiliaid roi adborth ar eu cydberthynas waith â Llywodraeth y Cynulliad yn ffordd bwysig o nodi ffyrdd o wella ymgysylltiad â rhanddeiliaid.

Cynhaliwyd arolwg cyntaf Llywodraeth y Cynulliad o randdeiliaid yn 2006 a chomisiynwyd Beaufort Research i gynnal ail arolwg o randdeiliaid yn 2008. Amcanion yr ail arolwg oedd asesu perfformiad swyddogion Llywodraeth y Cynulliad o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid, i ddarparu sail dystiolaeth ar gyfer gwella'r ffordd mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio â'i rhanddeiliaid ac yn eu cynnwys, a chymharu (lle y bo'n bosibl) â meincnod 2006.

Roedd arolwg 2008 yn bennaf yn ailadrodd dull llinell sylfaen 2006. Darparwyd rhestrau o unigolion gan adrannau Llywodraeth y Cynulliad yr ystyriwyd eu bod yn rhanddeiliaid¹ a luniodd sampl yr arolwg. Gallai'r ymatebwyr gyfrannu naill ai dros y ffôn neu ar-lein a chwblhawyd cyfanswm o 1,273 o gyfweiliadau yn llwyddiannus (929 dros y ffôn a 344 ar-lein) yn ystod y cyfnod rhwng 6^{ed} Chwefror a 7^{fed} Mawrth 2008.

Cydweithio â Swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru

- Roedd dros draean y rhanddeiliaid (35%) wedi bod mewn cysylltiad â mwy nag un o adrannau Llywodraeth y Cynulliad gan amlaf.
- Y dulliau mwyaf poblogaidd o ryngweithio gyda swyddogion Llywodraeth y Cynulliad oedd e-bost (87%), ffôn (73%) ac wyneb yn wyneb (72%).
- O ofyn eu hoff ddull o ryngweithio â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, roedd yn well gan y cyfrannau mwyaf o randdeiliaid ddull wyneb yn wyneb (68%), e-bost (62%) a ffôn (47%).
- Roedd yn well gan gyfanswm o 8% o randdeiliaid ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Gymraeg. Nododd ychydig dros chwarter o randdeiliaid (28%) mai yn anaml y gallent ymgysylltu â Swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Gymraeg, os o gwbl.
- Roedd bron 8 o bob 10 o randdeiliaid (78%) o'r farn bod ymgysylltu â swyddogion yn hawdd iawn neu'n eithaf hawdd.
- Nododd y rhan fwyaf o ymatebwyr (66%) fod cael gwybodaeth am Lywodraeth Cynulliad Cymru naill ai'n 'eithaf hawdd' neu'n 'hawdd iawn'. Fodd bynnag, nododd ychydig dros chwarter yr ymatebwyr (27%) fod cael gwybodaeth am Lywodraeth Cynulliad Cymru naill ai'n 'eithaf anodd neu'n anodd iawn'.

¹Mae'r diffiniad o randdeiliaid yn cynnwys arbenigwyr, partneriaid darparu, cyrff/grwpiau buddiant sy'n ymwneud ag un pwnc, awdurdodau lleol, sefydliadau sector gwirfoddol, sefydliadau sector preifat, sefydliadau academiaidd, cyrff proffesiynol ac adrannau llywodraeth y DU a llywodraethau gwledydd tramor. Nid oedd y diffiniad yn cynnwys Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad na'r cyhoedd yn gyffredinol.

Canfyddiadau o Swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru

- Roedd bron 7 o bob 10 o randdeiliaid (68%) yn fodlon ar eu hymgysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad. Dim ond 13% a fynegodd anfodlonrwydd a nododd 16% arall nad oeddynt yn fodlon nac yn anfodlon ar yr ymgysylltiad â rhanddeiliaid. Roedd y canlyniadau hyn yn eithaf tebyg i ganlyniadau arolwg 2006.
- Roedd cyfran sylweddol is o randdeiliaid sydd mewn cysylltiad ag adrannau'r Prif Weinidog (53%), Economi a Thrafnidiaeth (60%) a Phlant, Addysg Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (62%) yn fodlon ar yr ymgysylltiad â rhanddeiliaid o gymharu â'r cyfartaledd. Efallai bod hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod dwy o'r adrannau hyn yn cynnwys rhanddeiliaid newydd wedi iddynt gynnwys rhai Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad (CNLCau) a bod y rhanddeiliaid hyn yn mynd drwy broses 'sefydlu' gydag unigolion newydd a / neu weithdrefnau newydd.
- Roedd cyfran sylweddol is o randdeiliaid a oedd â swyddi uwch o fewn eu sefydliadau yn fodlon ar yr ymgysylltiad â rhanddeiliaid o gymharu â'u cydweithwyr mewn swyddi lefel is.
- Ar y cyfan, nododd 28% o randdeiliaid fod ymgysylltiad Llywodraeth y Cynulliad â rhanddeiliaid wedi gwella yn y 12 mis blaenorol ond nododd 15% o randdeiliaid ei fod wedi gwaethgu. Fodd bynnag, nid yw'r canfyddiad hwn mor gadarnhaol â'r hyn a welwyd yn 2006, pan roedd 31% yn nodi ei fod wedi gwella a 7% yn nodi ei fod wedi gwaethgu.
- Cyflwynwyd nifer o osodiadau i randdeiliaid y gellir eu defnyddio i ddisgrifio sefydliad. Gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn erbyn y gosodiadau. Yn gyffredinol, rhoddodd mwy o randdeiliaid raddau cadarnhaol na negyddol i'r swyddogion. Yr unig eithriad i hyn oedd 'yn gydgyssylltiedig' (roedd 19% yn cytuno bod hyn yn disgrifio swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ac roedd 57% yn anghytuno).
- Gofynnwyd i'r rhanddeiliaid pa mor aml roedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad mewn adran benodol yn dangos agweddau gwahanol ar berfformiad, ac roeddent yn fwyaf cadarnhaol ynghylch 'ymwneud â rhanddeiliaid mewn ffordd broffesiynol' (nododd 78% fod hyn *bob amser neu'n aml* yn gymwys i swyddogion), 'wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel' (71% *bob amser neu'n aml*) ac 'yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ac amcanion' (64% *bob amser neu'n aml*). Gwelwyd ymatebion mwy negyddol i 'arloesol ac yn fodlon mentro' (nododd 28% fod hyn yn *anaml neu byth* yn gymwys i swyddogion), 'gweithio gyda chi er mwyn cynnwys dinasyddion wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus' (19% yn *anaml neu byth*) ac 'yn eich cynnwys chi ar adeg addas yn y broses bolisi' (15% yn *anaml neu byth*).
- Rhwng 2006 a 2008, gwelwyd cwmp sylweddol yn y cyfrannau a nododd fod tri ffactor 'bob amser' neu 'yn aml' yn gymwys i swyddogion, sef 'yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ac amcanion' (64% yn 2008 o gymharu â 74% yn 2006), 'wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel' (71% yn 2008 o gymharu â 76% yn 2006) ac 'yn parchu barn amrywiol eraill' (57% yn 2008 o gymharu â 62% yn 2006).

- Pan ofynnwyd iddynt wneud hynny, nododd mwyafrif yr ymatebwyr rywbeth maent yn ei hoffi a rhywbeth nad ydynt yn ei hoffi ynghylch ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad. Roedd nifer o'u hoff bethau yn ymwneud â chydberthnasau personol, a nodwyd nodweddion megis 'cyfeillgar', 'hawdd mynd atynt' a 'phroffesiynol' tra roedd eu cas bethau'n dueddol o fod yn ymwneud â materion sefydliadol, megis 'rhy fiwrocrataidd'.
- Gofynnwyd am awgrymiadau i wella ymgysylltiad â rhanddeiliaid, a'r mathau o bynciau a gododd oedd cyfathrebu, biwrocratiaeth a lefel yr ymgynghori neu gydweithredu.

Ffactorau sy'n Gwella Boddhad

- Y ffactorau allweddol sy'n gwella boddhad cyffredinol gydag ymgysylltiad â rhanddeiliaid - yn nhrefn pwysigrwydd gan gychwyn gyda'r pwysicaf - oedd:

Ffactor	Cynyddodd boddhad gydag ymgysylltiad â rhanddeiliaid
'Ymgysylltu'n weithredol'	... wrth i'r graddau yr ymgysylltodd y swyddogion yn weithredol â rhanddeiliaid gynyddu
'Ymgysylltu mewn ffordd broffesiynol'	... wrth i'r graddau yr ymgysylltodd y swyddogion â rhanddeiliaid mewn ffordd broffesiynol gynyddu
'Newid mewn ansawdd ymgysylltiad â rhanddeiliaid dros y deuddeg mis blaenorol'	... wrth i'r canfyddiad o'r gydberthynas rhwng swyddog a rhanddeiliad (dros y deuddeg mis blaenorol) symud o fod yn 'waeth' i 'yr un peth' i 'well'
'Darparu cyfeiriad strategol'	... wrth i'r graddau y rhoddodd swyddogion gyfeiriad strategol i rhanddeiliaid gynyddu
'Yn ymrwymedig i gyflawni canlyniadau o safon uchel'	... wrth i'r graddau roedd swyddogion yn ymrwymedig i gyflawni canlyniadau o safon uchel gynyddu
'Rhwyddineb ymgysylltu â swyddogion'	... wrth i'r graddau y cafodd rhanddeiliaid hi'n hawdd ymgysylltu â swyddogion gynyddu

- Gan gymharu pwysigrwydd y ffactorau² gyda pherfformiad Llywodraeth y Cynulliad³ (fel y nodwyd gan rhanddeiliaid), dyrannwyd y ffactorau allweddol i un o'r pedwar 'Maes Gweithredu' canlynol:

Cyfle i Wella

Mae'r sefydliad yn perfformio'n wael ar yr agwedd hon o gymharu â'r Meincnod⁴. Mae hefyd yn faes a gaiff effaith fawr ar Ymgysylltiad â Rhanddeiliaid. Mae'n faes sy'n peri pryder a dylid canolbwyntio arno i'w wella.

² Yn seiliedig ar ddadansoddiad atchwiliad – gweler paragraffau 4.4 a 4.5 ac Atodiad F am fanylion.

³ Sgorau perfformio yw'r canrannau cadarnhaol cyfartalog heb eu pwysoli ar gyfer y cwestiynau ym mhob ffactor, neu'r perfformiad cadarnhaol ar gyfer y cwestiwn unigol - gweler Atodiad F am fanylion.

⁴ Dewiswyd meincnod perfformiad o 60% i adlewyrchu'r hyn a ddefnyddiwyd ar gyfer Arolwg Staff Llywodraeth y Cynulliad.

Cryfder

Mae'r sefydliad yn perfformio'n gryf ar yr agwedd hon. Mae hefyd yn faes a gaiff effaith fawr ar Ymgysylltiad â Rhanddeiliaid. Mae'n gryfder felly hyrwyddwch ef - daliwch ati i wneud yr hyn a wnewch!


Maes i'w Fonitro

Mae'r sefydliad yn perfformio'n wael ar yr agwedd hon o gymharu â'r meincnod ond caiff yr agwedd hon effaith gymharol fach ar Ymgysylltiad â Rhanddeiliaid. Cadwch olwg manwl ar y maes hwn gan mai dyma'r ail flaenoriaeth y mae angen rhoi sylw iddi a gallai ddatblygu i fod yn Gyfle i Wella.

Cynnal a Chefnogi

Mae perfformiad y sefydliad yn uwch na'r Meincnod ond nid yw mor dda ag y gallai fod o hyd. Fodd bynnag, mae'n faes a gaiff effaith gymharol fach ar Ymgysylltiad â Rhanddeiliaid. Yn gyntaf, gweithiwch i gynnal ei sefyllfa bresennol yna rhwch gefnogaeth iddo er mwyn ei wella.

Ffactorau allweddol sy'n gwella boddhad gydag ymgysylltiad â rhanddeiliaid: cymharu Effaith a Pherfformiad



- Cafodd y ddau ffactor sy'n fwyaf allweddol o ran gwella boddhad - 'ymgysylltu'n weithredol' ac 'ymgysylltu mewn ffordd broffesiynol' - sgorau perfformio ychydig yn is na'r lefel meincnod o 60% (56% yr un). Gan fod y ffactorau hyn yn cael effaith fawr ar foddhad gydag ymgysylltiad a bod iddynt berfformiad is na'r hyn sy'n ddelfrydol, caiff y ffactorau hyn eu diffinio fel 'cyfleoedd i wella'.

- Mae perfformiad swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ar 'ddarparu cyfeiriad strategol' yn wael o gymharu â'r rhan fwyaf o ffactorau eraill (sgôr gadarnhaol o 38%). Fodd bynnag, mae'n llai o flaenoriaeth ar gyfer gwelliant gan ei fod yn cael effaith gymharol fach ar foddhad gydag ymgysylltiad.
- 'Rhwyddineb ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad' (78%) ac 'ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau o safon uchel' (60%) oedd â'r sgorau perfformio uchaf. Fodd bynnag, mae'r ffactorau hyn yn cael effaith gymharol fach ar foddhad gydag ymgysylltiad ac felly cânt eu diffinio fel meysydd i'w 'cynnal a chefnogi'.

1. CYFLWYNIAD

Cefndir

1.1 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (y cyfeirir ati fel 'Llywodraeth y Cynulliad' o hyn ymlaen) yn cydweithio ag amrywiaeth eang o randdeiliaid wrth ddatblygu, gweithredu a chyflawni polisi. Mae rhoi cyfle i randdeiliaid roi adborth ar eu cydberthynas waith â Llywodraeth y Cynulliad yn ffordd bwysig o nodi ffyrdd o wella ymgysylltiad â rhanddeiliaid.

1.2 Datblygwyd Arolwg cyntaf Llywodraeth y Cynulliad o Randdeiliaid yn 2006 mewn ymgais i sefydlu fframwaith cyson ar gyfer adborth gan randdeiliaid. Rhoddodd yr arolwg set o fesurau perfformiad cyson ar draws adrannau y gellid eu defnyddio fel meincnod i asesu perfformiad yn y dyfodol.

1.3 Yn dilyn gwerthusiad o arolwg Rhanddeiliaid 2006 penderfynwyd y dylid cynnal yr arolwg bob dwy flynedd yn hytrach nag yn flynyddol, er mwyn rhoi amser i fesurau gwella gael eu sefydlu. Teimlwyd y byddai ail arolwg heb weithredu yn y cyfamser yn gamarweiniol lle gallai barn rhanddeiliaid ar ansawdd yr ymgysylltu fod wedi gwella yn sgîl yr ymgynghori neu wedi gwaethygu o ganlyniad i ddiffyg gweithredu dilynol i wella ymgysylltiad.

1.4 Ddwy flynedd yn ddiweddarach, comisiynwyd Beaufort Research, asiantaeth ymchwil marchnad a chymdeithasol annibynnol, gan Lywodraeth y Cynulliad i gynnal ail arolwg. Cynhaliwyd y cyfweiliadau rhwng 6^{ed} Chwefror a 7^{fed} Mawrth 2008.

Nodau ac Amcanion

1.5 Nodau'r arolwg oedd:

- asesu perfformiad swyddogion Llywodraeth y Cynulliad o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid;
- darparu sail dystiolaeth i wella'r ffordd mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio â'i rhanddeiliaid ac yn eu cynnwys
- cymharu, lle y bo'n bosibl, yn erbyn meincnod 2006.

1.6 Amcanion allweddol yr ymchwil oedd:

- datblygu a diweddarau'r gronfa ddata o Randdeiliaid Llywodraeth y Cynulliad;
- cynnal arolwg o randdeiliaid ar draws Llywodraeth y Cynulliad;
- llunio canfyddiadau sy'n caniatáu i Lywodraeth y Cynulliad ddeall cydberthnasau â rhanddeiliaid yn well a sut y gellir eu gwella;
- llunio canfyddiadau y gellir eu defnyddio ar lefel adrannol, yn hytrach nag ar lefel gorfforaethol yn unig;
- darparu data y gellir ei gymharu â chanfyddiadau sylfaenol 2006;
- ystyried newidiadau dros amser (h.y. ers 2006), gan gynnwys rhesymau posibl dros unrhyw newidiadau;
- os yw'n bosibl, darparu data sy'n caniatáu'r broses o gymharu perfformiad yn erbyn Llywodraeth yr Alban⁵.

⁵ Nid oedd modd cyflawni'r amcan hwn gan nad yw Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi arolwg cyfatebol ers 2005.

Methodoleg Ymchwil

Diffiniad o randdeiliad a sail y sampl

1.7 At ddibenion cymharu, defnyddiwyd yr un diffiniad o randdeiliad yn arolwg 2008 â'r hyn a ddefnyddiwyd ar gyfer arolwg 2006.

1.8 Cadwyd y diffiniad o randdeiliad yn fwriadol eang i sicrhau bod yr ymchwil mor gynhwysol â phosibl. Yn arbennig, mae'r diffiniad yn cynnwys y grwpiau canlynol sy'n ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad:

- arbenigwyr;
- partneriaid darparu;
- cyrff/grwpiau buddiant sy'n ymwneud ag un pwnc;
- awdurdodau lleol;
- sefydliadau sector gwirfoddol;
- sefydliadau sector preifat;
- sefydliadau academiaidd;
- cyrff proffesiynol;
- adrannau llywodraeth y DU a llywodraethau gwledydd tramor.

1.9 Nid oedd y diffiniad o randdeiliad yn cynnwys Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad na'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad raglen ymchwil ar wahân i gasglu barn a phrofiadau Dinasyddion o wasanaethau cyhoeddus.

Creu ffrâm y sampl

1.10 Fel yn 2006, i nodi'r sampl ar gyfer arolwg 2008, gofynnodd Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol (OCSRO) i bob adran o fewn Llywodraeth y Cynulliad ddarparu rhestr o unigolion y'u hystyrir yn rhanddeiliaid.

1.11 Nid oedd cyfyngiad ar nifer yr unigolion o bob sefydliad sy'n rhanddeiliad y gellid cyfweld â hwy gan fod yr arolwg yn anelu at gasglu barn rhanddeiliaid *unigol* yn hytrach na chasglu safbwyntiau sefydliadol neu gorfforaethol.

1.12 Ar gyfer pob rhanddeiliad unigol, gofynnwyd i bob is-adran ddarparu manylion cyswllt llawn gan gynnwys teitl swydd, teil y sefydliad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost a chyfeiriad post. Yn ystod y cyfnod y coladwyd y wybodaeth, bu cynrychiolwyr o OCSRO yn cysylltu ag is-adrannau i annog cymaint o ymateb â phosibl a darparu arweiniad ychwanegol lle'r oedd angen.

1.13 Wedi cwblhau camau glanhau'r data a dad-ddyblygu, roedd y gronfa ddata'n cynnwys cyfanswm o **4,716** o gysylltiadau cymwys.

Samplu

1.14 Er mwyn cyflawni'r nifer fwyaf posibl o gyfweiliadau, defnyddiwyd y sampl cyfan a oedd ar gael ar gyfer adrannau sydd â nifer gymharol fach o randdeiliaid. Ar gyfer adrannau sydd â mwy na 500 o randdeiliaid, dewiswyd hyd at 500 o gysylltiadau ar hap o'r gronfa ddata. Mae Ffigur 1.1, isod, yn crynhoi'r sampl a oedd ar gael ar gyfer pob adran, nifer yr unigolion a ddewiswyd i'w cyfweld, a nifer terfynol y cyfweiliadau a gyflawnwyd.

Ffigur 1.1 Samplu a nifer y cyfweiliadau a gyflawnwyd fesul adran

Adran	Sampl ar Gael	Sampl a Ddewiswyd ⁶	Cyfweiliadau a Gyflawnwyd
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	770	500	188
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	1,033	500	182
Materion Gwledig a Threftadaeth	920	500	173
Yr Economi a Thrafnidiaeth	724	500	166
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	295	295	153
Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd	313	313	134
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	352	352	119
Polisi Strategol, Deddfwriaeth a Chyfathrebu	121	121	59
Adnoddau Dynol	96	96	49
Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	71	71	39
Gwybodaeth a Gwasanaethau Corfforaethol	21	21	11
Cyllid	0	0	0
Gwasanaethau Cyfreithiol	0	0	0
<i>Cyfanswm</i>	<i>4,716</i>	<i>3,269</i>	<i>1,273</i>

Datblygu holiadur

1.15 Gan fod angen cynhyrchu data i'w gymharu â data 2006, arhosodd nifer o'r cwestiynau craidd yn ddigynnewid ar gyfer 2008. Am ragor o wybodaeth am ddyluniad yr holiadur, gan gynnwys datblygu'r ffactorau Llwyddiant Critigol, gweler adroddiad Arolwg Rhanddeiliaid 2006⁷. Fodd bynnag, i sicrhau bod yr holiadur yn parhau'n berthnasol, adolygwyd cynnwys yr holiadur mewn cydweithrediad ag OCSRO a gwnaed mân newidiadau, er enghraifft i adlewyrchu'r ffaith bod rhai Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad (CNLCau) wedi'u huno â Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2006.

1.16 Gofynnwyd cwestiynau ynghylch y meysydd allweddol canlynol i ymatebwyr a fu mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis blaenorol (yn nhrefn yr holiadur):

- 1) Gallu yn yr iaith Gymraeg;
- 2) Gwybodaeth broffil am yr ymatebydd a'r sefydliad;
- 3) Natur y gydberthynas â Llywodraeth y Cynulliad (e.e. p'un a oedd sefydliad y rhanddeiliad yn cael ei ariannu gan Lywodraeth y Cynulliad);
- 4) Gwelliannau posibl i gydberthnasau â rhanddeiliaid;
- 5) Boddhad cyffredinol gydag ymgysylltiad â swyddogion;

⁶ Ni ddefnyddiwyd rhan o'r sampl oherwydd cyrhaeddwyd nifer targed y cyfweiliadau ar gyfer yr adran.

⁷ Ar gael yn:

<http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/40382313/293077/1266940/StakeholderEng?lang=en> neu

<http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/40382313/293077/1266940/StakeholderCym?lang=en>.

- 6) Canfyddiadau o ymgysylltu â swyddogion;
- 7) Dulliau cysylltu a rhwyddineb y cyswllt;
- 8) Lefel y cysylltiad â swyddogion;
- 9) Graddau perfformiad ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer swyddogion adrannol o ran 'ffactorau llwyddiant critigol'.

1.17 Cwblhawyd cyfweiliad byrrach gan ymatebwyr na fu mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis blaenorol. Nid oedd yr holiadur byrrach yn holi am brofiad a boddhad gydag ymgysylltiad ac, yn hytrach, roedd yn cynnwys cwestiynau ynghylch y meysydd allweddol canlynol (yn nhrefn yr holiadur):

- 1) Gallu yn yr iaith Gymraeg;
- 2) Lefel y cysylltiad â swyddogion;
- 3) Rhesymau dros ddiffyg cysylltiad;
- 4) P'un a gysylltodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad â'r unigolyn am unrhyw reswm yn y 12 mis blaenorol ai peidio;
- 5) P'un a hoffai'r unigolyn mwy/llai o gysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad;
- 6) Gwelliannau posibl i gydberthnasau â rhanddeiliaid;
- 7) Gwybodaeth broffil am yr ymatebydd a'r sefydliad.

1.18 Holwyd am yr un pynciau allweddol yn 2006. I gael gwybodaeth fanylach am newidiadau i holiadur 2008, gweler Atodiad E.

Dull yr arolwg

1.19 Fel yn 2006, datblygwyd dull amlfodd ar gyfer arolwg 2008 fel y gallai ymatebwyr ddewis y dull a oedd fwyaf cyfleus iddynt hwy. Gallai'r ymatebydd ddewis cyfweiliad dros y ffôn a weinyddwyd gan gyfwelydd neu gyfweiliad ar-lein a gwblhawyd gan yr unigolyn.

1.20 Cynigwyd yr holiaduron ar-lein a dros y ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

1.21 Ar gyfartaledd, cymerodd yr holiadur 18 munud i'w gwblhau dros y ffôn.

Proffil y Sampl

1.22 Mae proffil y sampl yn 2008 yn debyg iawn i broffil y sampl yn 2006. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o rai o nodweddion allweddol y sampl, gan gymharu â 2006 lle bo'n bosibl. Gellir cael rhagor o wybodaeth am nodweddion proffil y sampl yn 2008 yn Atodiad G.

1.23 Fel y gellir gweld yn Ffigur 1.2, roedd bron un o bob tri o ymatebwyr yn gweithio i Awdurdodau Lleol a thua un o bob deg yn gweithio i'r GIG, elusennau neu'r sector preifat. Er ei fod yn eithaf tebyg i sampl 2006, mae sampl 2008 yn cynnwys ychydig llai o ymatebwyr o gyrff y GIG ac ychydig mwy o ymatebwyr o'r sector preifat.

Ffigur 1.2 Cyfran yr ymatebwyr yn ôl y math o sefydliad

Math o Sefydliad	2006 %	2008 %
Awdurdod Lleol (Cyngor)	28	29
Corff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)	17	11
Elusen gofrestredig	14	13
Cwmni / busnes sector preifat	6	10
Sefydliad academaidd	7	8
Grŵp gwirfoddol	11	7
Corff sector cyhoeddus arall	5	6
Adran llywodraeth ganolog	2	5
Partneriaeth sector cyhoeddus/preifat	5	4
Grŵp â buddiant	4	4
Asiantaeth y Llywodraeth	3	2
Corff cynrychioli cyflogaion	2	2
Arall	9	10
Cyfanswm	100	100

1.24 Yn gyson â 2006, roedd traean o'r ymatebwyr (33%) yn dod o sefydliadau sydd â 50 neu lai o gyflogaion ac ychydig o dan hanner (48%) yn dod o sefydliadau mwy sy'n cyflogi dros 500 o bobl (gweler Ffigur 1.3, isod).

Ffigur 1.3 Cyfran yr ymatebwyr yn ôl nifer y cyflogaion yn sefydliad y rhanddeiliad

Cyflogaion	2006 %	2008 %
10 neu lai	16	17
11 i 20	7	6
21 i 50	11	10
51 i 100	7	8
101 i 500	11	9
500+	47	48
Ddim yn gwybod	2	3
Cyfanswm	100	100

1.25 Nododd mwyafrif yr ymatebwyr fod gan eu sefydliad amrywiaeth o gydberthnasau â Llywodraeth y Cynulliad. Pan ofynnwyd iddynt ba un o gyfres o osodiadau sy'n disgrifio cydberthynas eu sefydliad â Llywodraeth y Cynulliad orau, ar gyfartaledd, dewisodd yr ymatebwyr dri o'r dewisiadau (gweler Ffigur 1.4, drosodd). Nododd dwy ran o dair o'r ymatebwyr (66%) fod eu sefydliad yn rhannu gwybodaeth â Llywodraeth y Cynulliad. Roedd nifer o randdeiliaid (55%) hefyd yn darparu gwasanaethau naill ai'n annibynnol ar Lywodraeth y Cynulliad, mewn partneriaeth â hi (47%), ar ran Llywodraeth y Cynulliad (45%) neu i Lywodraeth y Cynulliad (21%). Roedd traean yr ymatebwyr (33%) yn ymwneud ag ymgyrchoedd neu'n lobbïo ar faterion penodol ac roedd traean yr ymatebwyr (33%) yn gweithredu mewn rôl gynghori neu ymgynghorol i Lywodraeth y Cynulliad. Roedd tua un o bob pump o ymatebwyr (21%) yn darparu cyngor neu wasanaethau ymgynghori ar ran Llywodraeth y Cynulliad. Categori newydd ar gyfer arolwg 2008 oedd 'derbyn gwasanaethau'; roedd hyn yn gymwys i fwy nag un o bob pump o'r sampl (22%).

Ffigur 1.4 Cydberthynas rhwng sefydliad yr ymatebydd a Llywodraeth y Cynulliad

Natur y Gydberthynas	2006 %	2008 %
Rhannu gwybodaeth â Llywodraeth y Cynulliad	57	66
Darparu gwasanaethau yn annibynnol ar Lywodraeth y Cynulliad	41	50
Darparu gwasanaethau mewn partneriaeth â Llywodraeth y Cynulliad	52	47
Darparu gwasanaethau ar ran Llywodraeth y Cynulliad	46	45
Ymgychu neu lobïo ar faterion penodol	32	33
Rôl gynghori neu ymgynghorol i Lywodraeth y Cynulliad	32	33
Derbyn gwasanaethau	dd/g	22
Darparu gwasanaethau i Lywodraeth y Cynulliad	16	21
Rôl gynghori neu ymgynghorol ar ran Llywodraeth y Cynulliad	15	21
Arall	5	3
Dim un o'r rhain	1	3
Ddim yn gwybod	1	1

* Mae'r ffigurau'n gwneud cyfanswm o dros 100% gan y gallai ymatebwyr roi mwy nag un ateb.

2. CYDWEITHIO Â SWYDDOGION LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

2.1 Ar y cyfan, nododd bron 9 o bob 10 ymatebydd (89%) eu bod wedi bod mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis blaenorol. Mae'r adran hon yn ystyried y math o gyswllt â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a natur y cyswllt. Rhoddir y canfyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid a nododd nad oeddent wedi bod mewn cysylltiad â Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis blaenorol ar wahân yn Atodiad D.


Canfyddiadau Allweddol

- Roedd dros draean y rhanddeiliaid (35%) wedi bod yn cysylltu amlaf â mwy nag un o adrannau Llywodraeth y Cynulliad.
- Y dulliau defnyddir mwyaf wrth ryngweithio â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad oedd e-bost (87%), ffôn (73%) ac wyneb yn wyneb (72%).
- O ofyn pha ddulliau fuasai orau ganddynt eu defnyddio i ryngweithio â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, roedd yn well gan y cyfrannau mwyaf o randdeiliaid ddull wyneb yn wyneb (68%), e-bost (62%) a ffôn (47%).
- Roedd yn well gan gyfanswm o 8% o randdeiliaid ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Gymraeg. Nododd ychydig dros chwarter o randdeiliaid (28%) mai yn anaml y gallent ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Gymraeg, os o gwbl.
- Roedd bron 8 o bob 10 o randdeiliaid (78%) o'r farn bod ymgysylltu â swyddogion yn hawdd iawn neu'n eithaf hawdd.
- Nododd y rhan fwyaf o ymatebwyr (66%) fod cael gwybodaeth am Lywodraeth Cynulliad Cymru naill ai'n 'eithaf hawdd' neu'n 'hawdd iawn'. Fodd bynnag, nododd ychydig dros chwarter yr ymatebwyr (27%) fod cael gwybodaeth am Lywodraeth Cynulliad Cymru naill ai'n 'eithaf anodd neu'n anodd iawn'.

Cyswllt ag Adrannau

2.2 Bydd cyfran rhanddeiliaid Llywodraeth y Cynulliad sydd mewn cysylltiad ag adran i ryw raddau yn adlewyrchu maint yr adran, pa mor gyflawn oedd manylion cyswllt y rhanddeiliaid a ddarparwyd ar gyfer yr arolwg a phroffil y sampl dilynol a eglurwyd yn Adran 1. Yn sampl 2008, yr adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau oedd â'r gyfran uchaf o randdeiliaid (30%), wedi'i dilyn gan Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (24%) ac Economi a Thrafnidiaeth (21%).

Ffigur 2.1 Cyfran y rhanddeiliaid yn ôl adran Llywodraeth y Cynulliad: 2008



2.3 Roedd mwyafrif y rhanddeiliaid (62%) yn cysylltu amlaf ag un adran, ond roedd dros draean (35%) yn cysylltu amlaf â nifer o adrannau. Ar y cyfan, nododd 17% o ymatebwyr eu bod yn cysylltu amlaf â dwy adran a nododd 18% o ymatebwyr eu bod yn cysylltu amlaf â thair adran neu fwy. Roedd y lefelau uchaf o orgyffwrdd rhwng adrannau fel a ganlyn:

- Roedd cyfanswm o 52% o randdeiliaid a oedd mewn cysylltiad ag *Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd* hefyd mewn cysylltiad ag *Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*.
- Roedd cyfanswm o 42% o randdeiliaid a oedd mewn cysylltiad ag *Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai* hefyd mewn cysylltiad ag *Economi a Thrafnidiaeth*.
- Roedd cyfanswm o 42% o randdeiliaid a oedd mewn cysylltiad â *Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad* hefyd mewn cysylltiad â *Chyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*.
- Roedd cyfanswm o 42% o randdeiliaid a oedd mewn cysylltiad â *Chyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol* hefyd mewn cysylltiad ag *Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*.
- Roedd cyfanswm o 40% o randdeiliaid a oedd mewn cysylltiad â *Chyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol* hefyd mewn cysylltiad â *Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau*.

2.4 O ran amledd y cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, roedd hyn wedi'i rannu'n eithaf cyfartal rhwng y rhai a oedd mewn cysylltiad o leiaf yn wythnosol (31%), y rhai a oedd mewn cysylltiad yn fisol (36%) a'r rhai a oedd mewn cysylltiad â swyddogion bedair gwaith y flwyddyn neu lai (32%). O gymharu â rhanddeiliaid eraill, roedd cyfran sylweddol uwch o randdeiliaid o sefydliadau academiaidd mewn cysylltiad wythnosol â Llywodraeth y Cynulliad (46% o ymatebwyr academiaidd).

Dulliau Rhyngweithio


2.5 Fel y dangosir yn Ffigur 2.2, isod, y dull a ddefnyddiwyd i ryngweithio â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad gan fwy o randdeiliaid nag unrhyw ddull arall oedd e-bost (87% o randdeiliaid). Roedd tua thri chwarter yn rhyngweithio dros y ffôn (73%) ac mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb (72%). O gymharu â 2006, roedd cynnydd yn y defnydd o bob dull rhyngweithio ac eithrio llythyrau, a arhosodd ar yr un lefel (40%). Roedd trefn graddio'r dulliau'n gymharol gyson ar draws arolygon 2006 a 2008, er bod 'adroddiadau, cynigion neu ddogfennau ysgrifenedig eraill' a 'cynadleddau neu ddigwyddiadau' wedi codi'n uwch na 'llythyrau'.

Ffigur 2.2 Dulliau a ddefnyddiwyd i ryngweithio â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad - 2006 o gymharu â 2008

Dull rhyngweithio	2006 %	2008 %
E-bost	82	87
Sgyrsiau ffôn	68	73
Cyfarfodydd wyneb yn wyneb	67	72
Adroddiadau, Cynigion neu Ddogfennau ysgrifenedig eraill	34	47
Cynadleddau neu ddigwyddiadau	34	43
Llythyrau	40	40
Syllaen: Pawb mewn cysylltiad â Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis diwethaf		(1139) (1068)

2.6 Wrth ystyried *hoff* ddulliau cysylltu, nodwyd yr un tri dull â'r rhai a ddefnyddir, ond mewn trefn wahanol. Roedd 68% o randdeiliaid yn ffafrio 'cyfarfodydd wyneb yn wyneb', 62% yn ffafrio'r e-bost a 47% yn ffafrio'r ffôn. Efallai bod y gwahaniaeth hwn yn nhrefn y *dulliau a ffefrir* o gymharu â'r *dulliau a ddefnyddir* yn awgrymu bod mwy o alw am 'gyfarfodydd wyneb yn wyneb'. Roedd cyfran sylweddol uwch (76%) o ymatebwyr nad oeddent o sefydliadau sector cyhoeddus yn ffafrio 'cyfarfodydd wyneb yn wyneb' fel dull o ryngweithio o gymharu â'r rhai o sefydliadau sector cyhoeddus (63%).

Ffigur 2.3 Dulliau rhyngweithio: 'defnyddir' o gymharu â 'ffefrir'




Dewis iaith

2.7 Saesneg oedd dewis iaith y mwyafrif o randdeiliaid (87%) ar gyfer cyfathrebu â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag, nododd 8% mai Cymraeg fyddai eu dewis iaith ar gyfer cyfathrebu petai'r dewis ar gael. Roedd y gweddill naill ai eisiau'r ddwy iaith / cymysgedd o'r ddwy iaith (3%) neu nid oedd ganddynt wahaniaeth (1%).

2.8 Gofynnwyd i'r rhaid a nododd mai Cymraeg oedd eu dewis iaith ar gyfer cyfathrebu (91 o ymatebwyr⁸) pa mor aml y gallent ddefnyddio eu dewis iaith. Roedd profiad y rhanddeiliaid o hyn yn amrywio, gyda 29 ymatebydd yn nodi eu bod yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg 'bob amser neu'n aml', 33 'weithiau' a 28 'yn anaml neu byth'. Gallai hyn adlewyrchu gallu amrywiol swyddogion Llywodraeth y Cynulliad i gyfathrebu yn Gymraeg.

Ffigur 2.4 Dewis iaith ar gyfer cyfathrebu a gallu i ymgysylltu yn Gymraeg




⁸Gwir nifer o ymatebwyr gan fod maint y sampl yn gymharol fach

Rhwyddineb Ymgysylltu a Chael Gwybodaeth

2.9 Nododd bron 8 o bob 10 o randdeiliaid (78%) fod ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, yn gyffredinol, yn *hawdd* (52% 'eithaf hawdd'; 26% 'hawdd iawn'). Nododd 5% nad oedd ganddynt farn, felly mae hyn yn gadael 17% o randdeiliaid a nododd fod ymgysylltu'n anodd (14% 'eithaf anodd', 3% 'anodd iawn') - gweler Ffigur 2.5, isod.

Ffigur 2.5 Rhwyddineb ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru



2.10 Roedd cyfran sylweddol uwch o'r rhanddeiliaid a nododd eu bod mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn llai aml nag unwaith y mis o'r farn bod ymgysylltu yn anodd (21%) o gymharu â'r rhai a nododd eu bod mewn cysylltiad yn amlach (16%) - gweler Ffigur 2.6, isod. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl nodi achos ac effaith. Er enghraifft, gallai'r rhai sydd mewn cysylltiad yn llai aml fod yn llai cyfarwydd â'r dulliau ymgysylltu neu gallai profiad llai cadarnhaol o ymgysylltu olygu bod rhanddeiliaid yn cysylltu â Llywodraeth y Cynulliad yn llai aml.

Ffigur 2.6 'Yn gyffredinol, pa mor anodd neu hawdd yw hi i ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru' yn ôl amledd y cysylltiad â swyddogion

Amledd y cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad	Hawdd %	Anodd %	Sylfaen
Yn ddyddiol neu'n wythnosol	79	16	633
Yn fisol	83	15	272
Yn llai aml nag yn fisol	73	21	91

Sylfaen: Pawb a fu mewn cysylltiad â Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis diwethaf

2.11 Nid oedd gwahaniaeth sylweddol o ran rhwyddineb ymgysylltu rhwng y rhai a nododd mai Saesneg oedd eu dewis iaith ar gyfer cyfathrebu a'r rhai a nododd mai Cymraeg oedd eu dewis iaith (nododd 78% a 77%, yn y drefn honno, fod ymgysylltu'n 'hawdd').

2.12 Nid oedd gwahaniaethau mawr o ran rhwyddineb ymgysylltu rhwng adrannau. Fel y dengys Ffigur 2.7 (isod), rhoddodd o leiaf 70% o randdeiliaid sydd mewn cysylltiad â phob adran radd gadarnhaol ('hawdd iawn' neu 'eithaf hawdd') ar gyfer rhwyddineb ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad. Nododd cyfran sylweddol uwch o ymatebwyr a oedd mewn cysylltiad â'r adran Adnoddau Dynol fod ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn hawdd (91%).

Ffigur 2.7 Rhwyddineb ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn ôl adran

Adran	Hawdd %	Anodd %	Sylfaen
Adnoddau Dynol	91	9	53
Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd	84	14	148
Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	82	16	191
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	82	15	164
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	78	18	125
Adran y Prif Weinidog	78	18	55
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	78	19	278
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	76	19	340
Yr Economi a Thrafnidiaeth	75	21	239
Cyllid	75	21	96
Materion Gwledig	70	24	94

Sylfaen: Pawb a fu mewn cysylltiad â Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis diwethaf

2.13 Roedd rhwyddineb ymgysylltu'n amrywio'n sylweddol yn ôl y math o sefydliad (gweler Ffigur 2.8, isod). Roedd cyfrannau uwch o randdeiliaid o'r sector preifat neu o bartneriaethau cyhoeddus-preifat yn gweld ymgysylltu â swyddogion yn anodd (26%). Nododd mwyafrif y rhanddeiliaid ym mhob math o sefydliad fod ymgysylltu â swyddogion yn hawdd (gweler Ffigur 2.8, isod).


Ffigur 2.8 Pa mor anodd neu hawdd yw hi i ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad – yn ôl math o Sefydliad

Math o Sefydliad:	Hawdd %	Anodd %	Sylfaen
Sector cyhoeddus	80	16	633
Trydydd sector	80	16	272
Sefydliad academiaidd	79	16	91
Arall	77	17	75
Sector preifat / partneriaeth cyhoeddus-preifat	69	26	170

Sylfaen: Pawb a fu mewn cysylltiad â Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis diwethaf

2.14 Nododd dwy ran o dair o randdeiliaid (66%) fod cael gwybodaeth am Lywodraeth Cynulliad Cymru yn hawdd (47% 'eithaf hawdd'; 19% 'hawdd iawn'). Fodd bynnag, nododd dros chwarter y rhanddeiliaid (27%), fod cael gwybodaeth yn anodd.

Ffigur 2.9 Rhwyddineb cael gwybodaeth am Lywodraeth Cynulliad Cymru



2.15 Nododd cyfran uwch o randdeiliaid a oedd mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn fwy aml (wythnosol neu'n amlach) fod cael gwybodaeth am Lywodraeth y Cynulliad yn anodd (35% 'anodd iawn' neu'n 'eithaf anodd') o gymharu â'r rhai a oedd mewn cysylltiad yn fisol neu'n llai aml (24% 'anodd iawn' neu'n 'eithaf anodd'). Gallai hyn adlewyrchu'r ffaith bod mwy o angen gwybodaeth ar y rhai sydd mewn cysylltiad yn fwy aml.

3. CANFYDDIADAU O SWYDDOGION LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

3.1 Mae'r adran hon yn ystyried canfyddiadau cyffredinol ymatebwyr o swyddogion Llywodraeth y Cynulliad gan gynnwys eu boddhad cyffredinol gyda'r ffordd mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn ymgysylltu â sefydliadau.

Canfyddiadau Allweddol


- Roedd bron 7 o bob 10 o randdeiliaid (68%) yn fodlon ar eu hymgysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad. Dim ond 13% a fynegodd anfodlonrwydd a nododd 16% arall nad oeddynt yn fodlon nac yn anfodlon ar yr ymgysylltu â rhanddeiliaid. Roedd y canlyniadau hyn yn eithaf tebyg i ganlyniadau arolwg 2006.
- Roedd cyfran sylweddol is o randdeiliaid sydd mewn cysylltiad ag adrannau'r Prif Weinidog (53%), Economi a Thrafnidiaeth (60%) Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (62%) yn fodlon ar yr ymgysylltiad â rhanddeiliaid o gymharu â'r cyfartaledd. Efallai bod hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod dwy o'r adrannau hyn yn cynnwys rhanddeiliaid newydd wedi iddynt gynnwys rhai CNLCau a bod y rhanddeiliaid hyn yn mynd drwy broses 'sefydlu' gydag unigolion newydd a / neu weithdrefnau newydd.
- Roedd cyfran sylweddol is o randdeiliaid a oedd â swyddi uwch o fewn eu sefydliad yn fodlon gyda'r ymgysylltiad â rhanddeiliaid o gymharu â'u cydweithwyr mewn swyddi lefel is.
- Ar y cyfan, nododd 28% o randdeiliaid fod ymgysylltiad Llywodraeth y Cynulliad â rhanddeiliaid wedi gwella yn y 12 mis blaenorol ond nododd 15% ei fod wedi gwaethgu. Fodd bynnag, nid yw'r canfyddiad hwn mor gadarnhaol â'r hyn a welwyd yn 2006, pan nododd 31% ei fod wedi gwella a 7% ei fod wedi gwaethgu.
- Cyflwynwyd nifer o osodiadau i randdeiliaid y gellir eu defnyddio i ddisgrifio sefydliad. Gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn erbyn y gosodiadau. Yn gyffredinol, rhoddodd mwy o randdeiliaid raddau cadarnhaol na negyddol i'r swyddogion. Yr unig eithriad i hyn oedd 'yn gydgyssylltiedig' (roedd 19% yn cytuno bod hyn yn gymwys i swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ac roedd 57% yn anghytuno).
- Gofynnwyd i'r rhanddeiliaid pa mor aml roedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn dangos agweddau gwahanol ar berfformiad, ac roeddent yn fwyaf cadarnhaol ynghylch 'ymwneud â rhanddeiliaid mewn ffordd broffesiynol' (nododd 78% fod hyn *bob amser neu'n aml* yn gymwys i swyddogion), 'wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel' (71% *bob amser neu'n aml*) ac 'yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ac amcanion' (64% *bob amser neu'n aml*). Gwelwyd ymatebion mwy negyddol i 'arloesol ac yn fodlon mentro' (nododd 28% fod hyn *yn anaml neu byth* yn gymwys i swyddogion), 'gweithio gyda chi er mwyn cynnwys dinasyddion wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus' (19% *yn anaml neu byth*) ac 'yn eich cynnwys chi ar adeg addas yn y broses bolisi' (15% *yn anaml neu byth*).

- Rhwng 2006 a 2008, gwelwyd cwmp sylweddol yn y cyfrannau a nododd fod tri ffactor 'bob amser' neu 'yn aml' yn gymwys i swyddogion, sef 'yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ac amcanion' (64% yn 2008 o gymharu â 74% yn 2006), 'wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel' (71% yn 2008 o gymharu â 76% yn 2006) ac 'yn parchu barn amrywiol eraill' (57% yn 2008 o gymharu â 62% yn 2006).
- Pan ofynnwyd iddynt wneud hynny, nododd mwyafrif yr ymatebwyr rywbeth maent yn ei hoffi a rhywbeth nad ydynt yn ei hoffi ynghylch ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad. Roedd nifer o'r hoff bethau yn cynnwys cydberthnasau personol, a nodwyd nodweddion fel 'cyfeillgar', 'hawdd mynd atynt' a 'phroffesiynol' tra roedd eu cas bethau yn ymwneud â materion sefydliadol fel systemau neu weithdrefnau a oedd yn 'rhy fiwrocrataidd.'
- Gofynnwyd am awgrymiadau i wella ymgysylltiad â rhanddeiliaid, a'r mathau o bynciau a gododd oedd cyfathrebu, biwrocratiaeth a lefel yr ymgynghori neu gydweithredu.

Boddhad gydag Ymgysylltiad â Rhanddeiliaid

3.2 Fel y dengys Ffigur 3.1, nododd bron saith o bob deg (68%) o randdeiliaid eu bod yn fodlon ar y ffordd roedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi gweithio gyda sefydliadau eraill a'u cynnwys yn y 12 mis blaenorol ('ymgysylltiad â rhanddeiliaid' o hyn ymlaen). Dim ond 13% a fynegodd anfodlonrwydd a nododd 16% arall nad oeddent yn fodlon nac yn anfodlon ar yr ymgysylltiad â rhanddeiliaid. Roedd y canfyddiadau yn 2008 yn debyg i ganfyddiadau arolwg 2006.

Ffigur 3.1 Boddhad gydag Ymgysylltiad â Rhanddeiliaid



3.3 Roedd amrywiaeth sylweddol mewn boddhad gydag ymgysylltiad yn ôl adran (gweler Ffigur 3.2, isod). Nododd cyfran sylweddol is na'r cyfartaledd o randdeiliaid sydd mewn cysylltiad ag Adran y Prif Weinidog (53%), Economi a Thrafnidiaeth (60%), a Phlant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (62%) eu bod yn fodlon ar yr ymgysylltiad â rhanddeiliaid. Gallai dwy o'r adrannau hyn gynnwys cyfran gymharol uwch o randdeiliaid s'n gymharol newydd i Lywodraeth y Cynulliad, gan eu bod wedi meithrin cydberthnasau ag ELWa neu Awdurdod Datblygu Cymru yn flaenorol cyn iddynt gael eu huno â Llywodraeth y Cynulliad. Gallai'r sgorau boddhad is ymhlith rhanddeiliaid sydd mewn cysylltiad â'r adrannau hyn adlewyrchu'r broses 'sefydlu' gydag unigolion newydd a / neu weithdrefnau newydd.

Ffigur 3.2 Boddhad gydag ymgysylltiad â rhanddeiliaid yn ôl adran

Adran	Bodlon %	Anfodlon %	Sylfaen
Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd	74	9	148
Adnoddau Dynol	74	11	53
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	70	13	125
Materion Gwledig	69	12	94
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	67	11	164
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	67	14	278
Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	62	12	191
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	62	15	340
Yr Economi a Thrafnidiaeth	60	18	239
Cyllid	60	22	96
Adran y Prif Weinidog	53	18	55

Sylfaen: Pawb a fu mewn cysylltiad â Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis diwethaf

3.4 Mae cymharu perfformiad adrannau rhwng 2006 a 2008 yn anodd o ystyried y newidiadau strwythurol rhwng y ddau arolwg. Fodd bynnag, mae barn y rhanddeiliaid hynny sy'n cysylltu amlaf ag Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn agos iawn yn awr at y cyfartaledd er mai'r rhai a oedd yn cysylltu amlaf â'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a roddodd y sgorau isaf yn 2006.

3.5 Roedd dwy ran o dair neu fwy o randdeiliaid ar bob lefel o fewn eu sefydliad yn fodlon ar yr ymgysylltiad â rhanddeiliaid. Fodd bynnag, roedd cyfran sylweddol is o'r ymatebwyr a oedd mewn swyddi uwch o fewn eu sefydliad yn fodlon o gymharu â'r rhai mewn swyddi lefel is.

Ffigur 3.3 Boddhad gydag ymgysylltiad â rhanddeiliaid yn ôl lefel swydd yr ymatebydd

Lefel swydd yr ymatebydd yn y sefydliad ⁹	Bodlon %	Anfodlon %	Sylfaen n
Uchel	65	16	569
Canolig	72	10	345
Isel	71	9	204

Sylfaen: Pawb a fu mewn cysylltiad â Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis diwethaf


Gwelliant yn y 12 mis Blaenorol

3.6 Fel y dengys Ffigur 3.4 drosodd, nododd bron tri o bob 10 o randdeiliaid (28%) y bu gwelliant yn y ffordd mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda sefydliadau eraill ac yn eu cynnwys a nododd 15% y bu dirywiad. Roedd y gweddill o'r farn na fu newid (49%) neu nid oedd ganddynt farn.

⁹Grwpwyd yr ymatebwyr yn ôl lefel eu swydd o fewn eu sefydliad ar sail teitl swydd. Gellir gweld manylion llawn am hyn yn Atodiad G, Ffigur G3b

3.7 Er bod mwy o randdeiliaid wedi nodi gwelliant na dirywiad dros y 12 mis blaenorol, nid oedd y canlyniadau mor ffafriol ag yn 2006. Yn arolwg meincnod 2006, nodwyd gwelliant gan 31% o randdeiliaid a nodwyd dirywiad gan 7%.

Ffigur 3.4 Barn ar newid mewn ymgysylltiad â rhanddeiliaid dros y 12 mis blaenorol



3.8 Cofnodwyd canlyniadau sylweddol llai cadarnhaol ar gyfer rhanddeiliaid a oedd yn cysylltu amlaf ag Adran yr Economi a Thrafnidiaeth (20% o randdeiliaid yn nodi gwelliant a 29% yn nodi dirywiad), yr Adran Gyllid (27% o randdeiliaid yn nodi gwelliant a 26% yn nodi dirywiad), yr Adran Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (30% yn nodi gwelliant a 22% yn nodi dirywiad).

3.9 Roedd gan randdeiliaid o'r sector preifat farn sylweddol llai cadarnhaol hefyd ar newid yn y 12 mis blaenorol. Nododd chwarter (25%) welliant yn y ffordd mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda sefydliadau ac yn eu cynnwys a nodwyd dirywiad gan dros chwarter (27%).

Canfyddiadau o swyddogion Llywodraeth y Cynulliad

3.10 Cyflwynwyd nifer o osodiadau i randdeiliaid y gellir eu defnyddio i ddisgrifio staff sefydliad. Gofynnwyd i'r ymatebwyr p'un a oeddynt yn cytuno neu'n anghytuno bod y gosodiadau'n cyd-fynd â'u barn hwy ar swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru.

3.11 Fel y gellir gweld yn Ffigur 3.5, rhoddodd mwy o randdeiliaid farn gadarnhaol na barn negyddol¹⁰ ar gyfer pob un o'r gosodiadau. Yr unig eithriad i hyd oedd ymateb y rhanddeiliad i'r gosodiad bod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn 'gydgysylltiedig' (nododd 19% o randdeiliaid eu bod yn cytuno bod hyn yn gymwys i swyddogion o gymharu â 57% o randdeiliaid a nododd eu bod yn anghytuno).


¹⁰ Barn gadarnhaol yw cytuno â gosodiad cadarnhaol neu anghytuno â gosodiad negyddol. Barn negyddol yw anghytuno â gosodiad cadarnhaol neu gytuno â gosodiad negyddol.

3.12 Nodwyd yr ymateb mwyaf cadarnhaol gan randdeiliaid i'r gosodiadau 'yn bellennig ac amheronol' (65% yn anghytuno, 19% yn cytuno) 'yn gwrando ar eraill' (58% yn cytuno, 20% yn anghytuno), 'yn ymwneud yn agos â rhanddeiliaid' (54% yn cytuno, 22% yn anghytuno) ac 'allan o gysylltiad' (54% yn anghytuno, 23% yn cytuno).

3.13 Fodd bynnag, ar bob gosodiad, roedd o leiaf un o bob pump o ymatebwyr wedi ymateb yn negyddol - h.y. yn anghytuno gyda gosodiad cadarnhaol neu'n cytuno â gosodiad negyddol. Mae'r canlynol yn cynrychioli'r gosodiadau a gafodd y nifer fwyaf o ymatebion negyddol gan randdeiliaid wrth frwr barn ar swyddogion Llywodraeth y Cynulliad:

- 'Yn gydgysylltiedig' (57% yn anghytuno bod hyn yn gymwys i swyddogion Llywodraeth y Cynulliad).
- 'Yn aneglur ynghylch blaenoriaethau' (35% yn cytuno).
- 'Yn deall fy sefydliad' (29% yn anghytuno).
- 'Yn amharod i arloesi' (28% yn cytuno).
- 'Yn methu arwain yn effeithiol' (27% yn cytuno).

Ffigur 3.5 Argraff o swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru



3.14 Nid yw'n bosibl cymharu'n uniongyrchol â 2006 gan fod y raddfa ar gyfer y cwestiwn hwn wedi newid o raddfa dau bwynt le/Na i raddfa pum pwynt Cytuno/Anghytuno. Newidiodd rhai o'r gosodiadau hefyd i adlewyrchu'r newidiadau ym mlaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag, roedd yn bosibl cymharu safleoedd y gosodiadau a oedd yn y ddau arolwg yn nhermau cyfran y rhanddeiliaid a roddodd ymateb *cadarnhaol*¹¹ (gweler Ffigur 3.6, drosodd). Mae'r ffactorau a gafodd yr ymateb mwyaf ffafriol yn 2006 (e.e.

¹¹ h.y. le/Cytuno â gosodiad cadarnhaol neu Na/Anghytuno â gosodiad negyddol

anghytuno â 'pellennig ac amhersonol', cytuno â 'gwrando ar eraill') yn parhau i dderbyn yr ymateb mwyaf ffafriol yn 2008 ac i'r gwrthwyneb. Yn wir, mae safleoedd y gosodiadau yn 2008 yn cyd-fynd yn union â'u safleoedd yn 2006.

Ffigur 3.6 Argraff o swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Safleoedd y gosodiadau: 2006 o gymharu â 2008

Gosodiad	safle 2006	safle 2008
Pellennig ac amhersonol	1	1
Gwrando ar eraill	2	2
Allan o gysylltiad	3	3
Canolbwyntio ar ddarparu	4	4
Deall fy sefydliad	5	5
Yn amharod i arloesi	6	6
Yn aneglur ynghylch blaenoriaethau	7	7
Yn gydgyssylltiedig	8	8

Syllaen: Pawb a fu mewn cysylltiad â Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis diwethaf (2006:1068, 2008:1139)

Ffactorau Llwyddiant Critigol

3.15 Er mwyn mesur gwahanol agweddau ar berfformiad ymhellach mewn perthynas ag ymgysylltiad â rhanddeiliaid, gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio pa mor aml yr oedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn arddangos cyfres o wahanol agweddau ac ymddygiadau a ystyrir yn hanfodol gan Lywodraeth y Cynulliad i ymgysylltu'n llwyddiannus â rhanddeiliaid ('ffactorau llwyddiant critigol' o hyn ymlaen). Gofynnwyd i ymatebwyr seilio eu hymatebion ar eu profiad o swyddogion mewn adran benodol. Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a oedd mewn cysylltiad rheolaidd â mwy nag un adran ddewis adran yr oeddent yn dymuno rhoi ymateb yn ei chylch. Os na wnaed dewis, dewiswyd adran ar hap o blith yr adrannau y nododd yr ymatebydd y bu mewn cysylltiad â hi. Rhoddwyd y cyfle i ymatebwyr a oedd mewn cysylltiad rheolaidd â mwy nag un adran ailadrodd y cwestiynau hyn ar gyfer hyd at dair adran. Dewisodd cyfanswm o 14 ymatebydd roi atebion ar gyfer mwy nag un adran.

3.16 Caiff data ei *gasglu* ar lefel adrannol, ni chaiff y canfyddiadau ar gyfer y Ffactorau Llwyddiant Critigol, ar y cyfan, eu *hadrodd* ar lefel adrannol oherwydd meintiau bychan y samplau. Caiff ymatebion yn ymwneud â phob adran eu crynhoi i roi trosolwg o'r canfyddiadau o swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ar draws y sefydliad. Gwneir sylwadau ar wahaniaethau rhwng adrannau lle y bo maint y sampl yn caniatáu hynny a'u bod yn arwyddocaol yn ystadegol.

3.17 Ymhlith y meysydd lle nodwyd y perfformiad mwyaf cadarnhaol (gweler Ffigur 3.7, drosodd) gan yr ymatebwyr roedd:

- 'Ymwneud â rhanddeiliaid mewn ffordd broffesiynol' (78% yn nodi bod hyn '*bob amser neu'n aml*' yn gymwys i swyddogion).
- 'Wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel' (71% '*bob amser neu'n aml*').
- 'Yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ac amcanion' (64% '*bob amser neu'n aml*').
- 'Yn ddiduedd wrth ymwneud â mudiadau' (61% '*bob amser neu'n aml*').
- 'Darparu gwybodaeth gywir a dibynadwy' (61% '*bob amser neu'n aml*').

3.18 Ymhlith y meysydd lle nodwyd y perfformiad lleiaf cadarnhaol roedd:

- 'Arloesol ac yn fodlon mentro' (nododd 28% fod hyn yn 'anaml neu byth' yn gymwys i swyddogion).
- 'Gweithio gyda chi er mwyn cynnwys dinasyddion wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus' (19% 'anaml neu byth').
- 'Yn eich cynnwys chi ar adeg addas yn y broses bolisi' (15% 'yn anaml neu byth').

Ffigur 3.7 Perfformiad Ffactor Llwyddiant Critigol (data wedi'i grynhoi ar draws pob adran)

Ffactor Llwyddiant Critigol	Bob amser	Yn aml	Weithiau	Yn anaml	Byth
	%	%	%	%	%
Maent yn ymwneud â rhanddeiliaid mewn ffordd broffesiynol	41	37	15	2	0
Maent wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel	32	39	19	2	0
Maent yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ac amcanion	28	36	24	4	1
Maent yn ddiuedd wrth ymwneud â mudiadau	27	34	21	5	1
Maent wedi eu hymrwymo i wella'n barhaus	25	34	26	3	0
Maent yn parchu barn amrywiol eraill	25	32	28	5	0
Maent yn ei gwneud hi'n glir pwy sy'n atebol am y canlyniadau	22	28	30	11	2
Maent yn darparu gwybodaeth gywir a dibynadwy	21	40	30	4	1
Maent yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn darparu atebion sy'n gweithio	17	34	35	8	1
Maent yn deall yr hyn rydych yn ceisio ei gyflawni	17	33	37	8	2
Maent yn rhannu gwybodaeth yn agored	16	30	39	9	1
Maent yn eich cynnwys chi ar adeg addas yn y broses bolisi	14	28	38	12	3
Maent yn gweithio gyda chi er mwyn cynnwys dinasyddion wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus	11	24	32	14	5
Maent yn arloesol ac yn fodlon mentro	6	17	39	22	6

Sylfaen: Pawb a atebodd gwestiynau am unrhyw adran (1,121)

3.19 Y rhanddeiliaid a oedd mewn cysylltiad ag Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd a nododd y canlyniadau mwyaf cadarnhaol. O gymharu â'r sgôr gyfartalog, nododd cyfran sylweddol uwch o'r rhai a oedd mewn cysylltiad ag Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd fod y ffactorau canlynol 'bob amser' neu'n 'aml' yn gymwys i swyddogion yn yr adran hon:

- 'Ymwneud â rhanddeiliaid mewn ffordd broffesiynol' (nododd 88% fod hyn 'bob amser neu'n aml' yn gymwys i swyddogion Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd o gymharu â chyfartaledd o 78% ar draws pob adran).
- 'Wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel' (82% o gymharu â 71%).
- 'Wedi eu hymrwymo i wella'n barhaus' (79% o gymharu â 59%).
- 'Yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ac amcanion' (81% o gymharu â 64%).
- 'Yn darparu gwybodaeth gywir a dibynadwy' (82% o gymharu â 61%).

- 'Yn ei gwneud hi'n glir pwy sy'n atebol am y canlyniadau' (67% o gymharu â 50%).
- 'Yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn darparu atebion sy'n gweithio' (72% o gymharu â 51%).
- 'Yn rhannu gwybodaeth yn agored' (58% o gymharu â 46%).
- 'Yn eich cynnwys chi ar adeg addas yn y broses bolisi' (55% o gymharu â 42%).
- 'Yn gweithio gyda chi er mwyn cynnwys dinasyddion wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus' (52% o gymharu â 35%).
- 'Yn arloesol ac yn fodlon mentro' (36% o gymharu â 23%).

3.20 O gymharu â'r sgôr gyfartalog, nododd cyfran sylweddol is o randdeiliaid a oedd mewn cysylltiad ag Adran yr Economi a Thrafnidiaeth yr ymatebion mwyaf cadarnhaol sef 'bob amser' neu 'yn aml' ar gyfer pedwar ffactor llwyddiant critigol, sef:

- 'Wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel' (nododd 60% fod hyn *bob amser / yn aml* yn gymwys i swyddogion Adran yr Economi a Thrafnidiaeth o gymharu â chyfartaledd o 71%).
- 'Wedi eu hymrwymo i wella'n barhaus' (45% o gymharu â 59%).
- 'Yn rhannu gwybodaeth yn agored' (35% o gymharu â 46%).
- 'Yn arloesol ac yn barod i fentro' (13% o gymharu â 23%).

3.21 Nododd cyfran sylweddol is o ymatebwyr fod swyddogion Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai 'bob amser' neu 'yn aml' yn 'canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ac amcanion' o gymharu â'r cyfartaledd ar draws pob adran (50% o gymharu â 64% yn gyffredinol). Nododd cyfran sylweddol is o ymatebwyr fod swyddogion yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau 'bob amser' neu'n 'aml' yn 'deall yr hyn rydych yn ceisio ei gyflawni' (40% o gymharu â 50% yn gyffredinol). Gellir gweld manylion pellach am ganfyddiadau ffactorau llwyddiant critigol yn ôl adran yn Atodiad B.

3.22 Roedd ffactorau llwyddiant critigol hefyd yn rhan allweddol o'r holiadur yn yr arolwg meincnod yn 2006. Ailadroddwyd nifer o'r ffactorau hyn yn arolwg 2008 ac felly maent yn rhoi cyfle i gymharu. Mae Ffigur 3.8, isod, yn dangos y canlyniadau wedi'u crynhoi ar draws yr holl adrannau, gan ddangos cyfran y rhanddeiliaid a nododd fod swyddogion 'bob amser' neu 'yn aml' yn dangos y nodweddion. Yn achos mwyafrif y ffactorau llwyddiant critigol, nid oedd llawer o wahaniaeth yn y cyfrannau a nododd fod swyddogion 'bob amser' neu 'yn aml' yn dangos y nodweddion rhwng 2006 a 2008. Fodd bynnag, roedd tri ffactor lle'r oedd perfformiad yn 2008 yn sylweddol is nag yn 2006. Yn 2008, nododd cyfran sylweddol is o randdeiliaid fod swyddogion 'bob amser' neu 'yn aml' yn 'canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ac amcanion' (64% yn 2008 o gymharu â 74% yn 2006), 'wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel' (71% yn 2008 o gymharu â 76% yn 2006) ac yn 'parchu barn amrywiol eraill' (57% yn 2008 o gymharu â 62% yn 2006).

Ffigur 3.8 Perfformiad o ran Ffactorau Llwyddiant Critigol (data wedi'i grynhoi ar draws pob adran): 2006 o gymharu â 2008

Ffactor Llwyddiant Critigol	2006: Bob amser / Yn aml	2008: Bob amser / Yn aml
	%	%
Maent yn ymwneud â rhanddeiliaid mewn ffordd broffesiynol	81	78
Maent wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel	76	71
Maent yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ac amcanion	74	64
Maent yn ddiduedd wrth ymwneud â mudiadau	63	61
Maent yn darparu gwybodaeth gywir a dibynadwy	60	61
Maent wedi eu hymrwymo i wella'n barhaus	dd/g	59
Maent yn parchu barn amrywiol eraill	62	57
Maent yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn darparu atebion sy'n gweithio	53	51
Maent yn ei gwneud hi'n glir pwy sy'n atebol am y canlyniadau	51	50
Maent yn deall yr hyn rydych yn ceisio ei gyflawni	51	50
Maent yn rhannu gwybodaeth yn agored	44	46
Maent yn eich cynnwys chi ar adeg addas yn y broses bolisi	42	42
Maent yn gweithio gyda chi er mwyn cynnwys dinasyddion wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus	dd/g	35
Maent yn arloesol ac yn fodlon mentro	22	23
<i>Sylfaen: Pawb a atebodd gwestiynau am unrhyw adran</i>	<i>(1,039)</i>	<i>(1,121)</i>

Hoff bethau a Chas bethau

3.23 Gofynnwyd i bob rhanddeiliad nodi'r hyn roeddent yn ei hoffi a'r hyn nad oeddent yn ei hoffi am weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gwnaed hyn ar ffurf atebion gair am air fel y gallai'r ymatebwyr fynegi eu barn yn eu geiriau eu hunain. At ei gilydd, nododd 81% o ymatebwyr rywbeth yr oeddent yn ei hoffi am gydweithio â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a nododd nifer tebyg iawn (83%) rywbeth nad oeddent yn ei hoffi.

3.24 Fel y gellid disgwyl ar gyfer cwestiwn o'r natur hon roedd amrywiaeth eang o ymatebion. Fodd bynnag, yn gyffredinol, roedd yr agweddau yr oedd y rhanddeiliaid yn *hoff* ohonynt yn dueddol o fod yn ymwneud â chydberthnasau unigol neu ymddygiad unigol. Daeth y themâu canlynol i'r amlwg (mae dyfyniadau'n dilyn pob thema, i roi blas o rai o'r ymatebion).

- Roedd nifer o'r sylwadau yn ymwneud â pha mor hawdd oedd mynd at swyddogion a pha mor gyfeillgar oeddent a bod yr agwedd hon yn arwain at gydberthynas waith ddidwyl ac agored

Cyfeillgar, dod yn gydweithwyr da, haws gwybod y gallwch ofyn cwestiwn syml i rywun heb gael eich bychanu. Maent yn parchu eich barn.

Ar lefel bersonol, maent yn gyffredinol yn bobl gyfeillgar.

Maent yn bobl hawdd mynd atynt ac nid ydynt yn oeraidd yn y modd maent yn gweithredu.

Yn gyffredinol, mae gennyf gydberthynas waith dda lle y gallwn drafod pethau'n agored, gallwn fynegi barn heb i un ochr gael ei thramgwyddo ac fel arfer gellir dod i benderfyniad cytbwys.

- Cofnodwyd sylwadau pellach ynghylch dull cadarnhaol cyffredinol swyddogion o weithio o ran bod yn barod i helpu a phroffesiynoldeb. Nodwyd hyn yn aml mewn perthynas â brwdfrydedd ac ymrwymiad y swyddogion a'r dyhead i gyflawni canlyniadau.

Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn gydwybodol, brwdfrydig ac yn barod i helpu.

Yn gyffredinol, maent yn broffesiynol a didwyll; efallai na allant helpu cymaint ag y dymunwch, ond maent yn ceisio eu gorau ac yn barod i helpu.

Rhannu brwdfrydedd i wella ansawdd bywyd pobl drwy wella iechyd a lles ar draws pob sector o gymdeithas.

Mae rhai unigolion sy'n ymrwymedig dros ben yn gweithio mewn amgylchedd sy'n newid yn barhaus. Er eu bod wedi wynebu'r posibilrwydd o golli swyddi dros y ddwy flynedd ddiwethaf, maent wedi parhau i ganolbwyntio ar yr hyn maent yn ceisio ei gyflawni.

- Roedd y ffaith bod y swyddogion yn hygyrch a'u bod ar gael yn nodwedd gyffredin arall yr oedd rhanddeiliaid yn ei 'hoffi' am gydweithio â swyddogion. Nodwyd y ffaith bod cysylltu'n hawdd, bod cyswllt yn rheolaidd a bod cyswllt wyneb yn wyneb yn bosibl mewn perthynas â'r mater hwn. Roedd hefyd nifer o sylwadau ar fanteision swyddfeydd rhanbarthol a bod hygyrchedd yn well nag mewn gwledydd eraill.

Rwy'n credu bod cysylltu â nhw'n hawdd iawn - hygyrch, maent yn ymddwyn yn broffesiynol, yn gyffredinol maent yn ymrwymedig i ganfod atebion, maent yn bobl ddymunol a gallwch sefydlu cydberthnasau da gyda nhw.

Mae cyswllt rheolaidd gyda'r un swyddogion yn golygu eu bod yn datblygu dealltwriaeth dda o'ch sefydliad.

Mae'n hawdd codi'r ffôn i gael sgwrs gyda nhw; nid ffigyrau pell ydynt yn yr ystyr hwnnw.

Y brif fantais yw hygyrchedd adrannau a swyddogion sydd wedi gwella'n sylweddol.

Mae'n agoriad llygad o gymharu â hen system y Swyddfa Gymreig. Er enghraifft, byddent yn gofyn i ni eu cyfarfod, ond byddai'n rhaid teithio i Whitehall. Mae llawer mwy o ryngweithio nawr.

Gan fod ganddynt swyddfeydd rhanbarthol, rydym yn adnabod y rhan fwyaf ohonynt yn bersonol.

Gan ei bod yn wlad fach, rydych yn delio â llai o bobl ac adrannau nag yn Lloegr.

- Cafwyd nifer o sylwadau bod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn barod i wrando ar eraill ac yn agored i awgrymiadau a syniadau gan sefydliadau eraill. I rai, roedd hyn yn arwain at gydberthynas waith gydweithredol a chadarnhaol iawn.

Y ffaith eu bod yn agored ac yn hawdd mynd atynt ac yn cydnabod y bartneriaeth.

Yn gyffredinol, mae gennyf gydberthynas waith dda lle y gallwn drafod pethau'n agored, gallwn fynegi barn heb i un ochr gael ei thramgyddo ac fel arfer gellir dod i benderfyniad cytbwys.

Yn agored i ymgysylltu mewn trafodaethau ar bolisi a dull partneriaeth o weithredu ar ddatblygu polisi.

Maent wedi bod yn barod i wrando arnom a dysgu wrthym, ni fu'n system un ffordd.

Yn gyffredinol, mae ganddynt ddull cydweithredol iawn o weithredu ar ddatblygu a chyflawni polisi.

Mae synnwyr o gydweithredu a phartneriaeth go iawn yng Nghymru sy'n nodwedd amhrisiadwy. Mae ymrwymiad cyffredin i wella gwasanaethau i'r bobl.

- Mae'r hygyrchedd a'r didwylledd a amlygir gan swyddogion yn cyfrannu at nodwedd arall a nodwyd yn gyffredinol fel rhywbeth mae rhanddeiliaid yn hoff ohono, sef bod cydweithio â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi'r gallu i randdeiliaid ddylanwadu ar bolisi.

Y ffaith bod gennym lais ac y gallwn gyfrannu at faes gofal sydd yn ei hanfod yn gymhleth iawn. Bu'n fantais anferth - cyn hynny nid oedd gennym lais swyddogol na ffordd o symud polisi yn ei flaen.

Gan eich bod yn teimlo wrth ddelio â nhw, nad ydych byth yn fwy nag ychydig gamau i ffordd oddi wrth y rhai sy'n gwneud y penderfyniadau. Rydych yn teimlo eich bod yn gweithredu gydag uwch wneuthurwyr polisi a gall fod yn gyffrous iawn.

Mae'n gyfle i ddylanwadu ar bolisi ac arfer cenedlaethol.

Gan fod Cymru'n wlad fach gallwch fod yn rhan o drafodaethau ar lefel genedlaethol a llywio'r broses o ffurfio polisi ar lefel genedlaethol a fyddai'n llawer anoddach yn rhywle fel Lloegr.

- Roedd nifer o'r rhanddeiliaid yn ystyried swyddogion Llywodraeth y Cynulliad fel ffynhonnell dda o wybodaeth a allai ddarparu cyngor ac arbenigedd angenrheidiol.

Mae'n dda cael rhywun i anfon e-bost ato os oes angen gwybodaeth neu gymorth ychwanegol arnaf.

Maent yn darparu arweiniad da os ydym yn wynebu rhwystrau.

Mae ganddynt arbenigedd ac maent yn rhannu gwybodaeth a phrofiad ar draws y sefydliad.

3.25 Roedd yr agweddau allweddol ar gydweithio â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru *nad* oedd y rhanddeiliaid yn eu hoffi yn ymwneud mwy â materion sefydliadol fel strwythurau neu brosesau yn hytrach nag agweddau neu ymddygiad swyddogion. Ceir crynodeb isod o'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg.

- Roedd nifer o'r sylwadau'n amlygu materion yn ymwneud â biwrocratiaeth a oedd weithiau'n cael eu cysylltu'n uniongyrchol ag anfodlonrwydd o ran amserlenni. Teimlai eraill na allai swyddogion ddatrys materion weithiau o ganlyniad i fiwrocratiaeth.

Nid oes gan rai unigolion y cydweithiaid â nhw unrhyw syniad am amserlenni masnachol ac mae prosiectau wedi llusgo am fisoedd. Mae tuedd i wneud popeth drwy bwyllgor, sy'n golygu nad oes neb yn atebol ac mae gan bawb farn wahanol sydd angen eu hystyried mewn prosiect (amhosibl yw bodloni pawb!).

Weithiau mae cael ateb yn amhosibl. Mae biwrocratiaeth yn golygu na allant helpu cymaint ag y dymunant.

Mae newid yn araf iawn o safbwynt swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datrys problemau.

Biwrocratiaeth eu proses nhw. Amser mae pethau yn ei gymryd.

Mae biwrocratiaeth yn golygu na allant helpu cymaint ag y dymunant.

Mae angen hwb arnynt, weithiau nid ydynt yn gwerthfawrogi bod sefyllfa'n gofyn am weithredu ar frys.

- Roedd diffyg meddwl yn gydgysylltiedig neu anghysondeb ar draws adrannau yn agwedd arall nad oeddent yn ei hoffi. Fel yn achos nifer o'r rhai a nododd biwrocratiaeth, roedd rhai'n cysylltu hyn yn uniongyrchol ag amserlenni hwy. Teimlai eraill fod hyn yn arwain at ddryswch neu ddyblygu gwaith.

Nid yw'r adrannau yn siarad gyda'i gilydd. Felly os ydych yn siarad gyda'r unigolyn anghywir nid oes gennyh obaith o ddod o hyd i'r unigolyn cywir.

Diffyg meddwl yn gydgysylltiedig.

Biwrocratiaeth a diffyg gweithgarwch cydgysylltiedig ag adrannau eraill ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru; cynnydd araf.

Nid ydynt bob amser yn ymwybodol o'r hyn mae is-adrannau eraill o fewn yr un adran yn ei wneud.

Maent yn dal i fod yn annigonol o gydgysylltiedig o fewn yr adran ac ar draws adrannau eraill.

Nid yw'r atebion a dderbynnir bob amser yn gyson; yn aml bydd gofyn i ymholiad gael ei basio rhwng adrannau gan arwain at oedi a dryswch.

- Teimlai rhai fod ymdrechion yn canolbwyntio ar agendâu mewnol Llywodraeth y Cynulliad yn hytrach nag ar faterion a phrif bryderon eu sefydliadau eu hun. Arweiniodd y blaenoriaethau a'r agendâu anghyson a ddaeth yn sgîl hyn at anfodlonrwydd ymysg rhai.

Weithiau nid ydynt yn deall yr hyn rydym yn ceisio ei gyflawni, mae ganddynt eu targedau eu hunain ac mae hynny weithiau yn achosi problemau i ni.

Caiff gormod o bolisiau a strategaethau eu cyflwyno ac mae disgwyl i ni ymgysylltu â rhain i gyd yn effeithiol.

Mae ganddynt ymagwedd hyd-braich at y sector gwirfoddol. Mae'n ymagwedd o oddefgarwch yn hytrach nag ymgysylltu.

Maent yn gweithio i'w hagenda a'u hamserlen eu hunain ac nid oes ganddynt y peth nesaf i ddim o syniad am yr amserlen a'r terfynau amser sy'n effeithio ar sefydliadau eraill.

Pan fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwrw ymlaen â rhaglen/menter newydd heb ymgynghori.

Blaenoriaethau gwahanol a gwrthdaro o ran yr hyn y mae'r ddau ohonom yn canolbwyntio arno.

Peidio â chael gwybodaeth am feysydd o ddiddordeb cyffredin a gweithio mewn partneriaeth a pheidio ag ymgynghori ar brosiectau/mentrau a gaiff effaith sylweddol ar ein gwaith.

[Swyddogion] yn gorfod dilyn agenda gwleidyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hytrach nag anghenion y sector.

- Teimlai rhanddeiliaid eraill y gallai cyfeiriad strategol neu amcanion fod braidd yn amwys neu heb fod ag arweiniad a allai arwain at anawsterau wrth gyflawni canlyniadau ystyrlon.

Nid ydynt yn glir iawn wrth ofyn am yr hyn maent ei eisiau.

Diffyg eglurder ynghylch yr hyn y bydd y bwrdd wir yn ei gyflawni. Mae diffyg eglurder ynghylch yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisiau iddynt gyflawni.

Byddai ansicrwydd yn ansoddair da i ddisgrifio unrhyw ryngweithio.

Diffyg cyfeiriad. Diffyg dealltwriaeth.

Mae diffyg eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am faes polisi penodol a gellid gwella cyfathrebu dargyfeiriol o fewn y sefydliad hefyd.

- Roedd y prosesau gwneud penderfyniadau neu anallu swyddogion i wneud penderfyniadau penodol yn achosi rhwystredigaeth i rai. Gallai hyn arwain at amserlenni hwy a phroblemau gyda chyfathrebu.

Gallai prosesau gwneud penderfyniadau estynedig, yn arbennig pan fydd mwy nag un is-adran yn gysylltiedig, gael eu gwaethygu gan bwysau cystadleuol ar unigolion.

Penderfyniadau a chyfathrebu gwael.

Ni allwch byth gael penderfyniad. Rhaid iddo fynd drwy amryw bwyllgorau a grwpiau. Ni fyddent byth yn goroesi mewn diwydiant.

Gall fod yn rhwystredig os nad oes gan yr unigolion y gallu i wneud penderfyniadau.

Cymhlethdod y broses gwneud penderfyniadau.

- Maes arall nad oedd rhanddeiliaid yn ei hoffi, sydd i raddau yn gysylltiedig â gwneud penderfyniadau, oedd anhyblygrwydd. Roedd y sylwadau'n bennaf yn ymwneud â'r strwythur y mae'r swyddogion yn gweithredu ynddo, yn hytrach na'r swyddogion eu hunain.

Mae'n anodd i staff Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud unrhyw benderfyniadau neu ddangos unrhyw hyblygrwydd.

Maent yn dueddol o fod yn wrth-risg - sy'n eu rhwystro rhag bod yn gynorthwyol ac weithiau rhag bod yn ddefnyddiol.

Mae gan rai ohonynt safbwyntiau cul.

Mae'r rhan fwyaf o bethau'n ddigynfnewid.

Weithiau cânt eu rhwymo gan eu hamgylchiadau gwleidyddol; gallant fod yn fiwrocrataidd ac anhyblyg.

- Roedd nodi swyddogion priodol (sydd â gwybodaeth berthnasol neu bŵer i wneud penderfyniadau), cael gafael arnynt a chysylltu â hwy yn faes arall a oedd yn achosi rhwystredigaeth i rai rhanddeiliaid.

Mae'n ymddangos nad oes gan y rhai y cydweithiais â hwy lawer o ddylanwad ar benderfyniadau a wneir ar lefel uwch na hwy (neu benderfyniadau na wneir o gwbl).

Mae'n amhosibl cael gafael arnynt.

Mae'n anodd iawn cael gafael ar yr unigolyn cywir.

Mae ceisio cael gafael ar yr unigolyn cywir sydd â'r wybodaeth gywir weithiau'n anodd.

Methu nodi neu ymgysylltu â'r bobl gywir i wneud cynnydd ar ein hamcanion a'n nodau.

Gwelliannau a Awgrymir

3.26 Cofnodwyd gwelliannau i'r ffordd mae swyddogion yn cydweithio â sefydliadau eraill ac yn eu cynnwys drwy sylwadau gair am air hefyd. Unwaith eto, roedd yr ymatebion yn amrywiol ac weithiau'n benodol i sefyllfaoedd unigol, fodd bynnag, y materion canlynol oedd y mwyaf cyffredin. I ryw raddau, maent yn adlewyrchu'r agweddau allweddol a nodwyd gan randdeiliaid fel nodweddion nad oeddent yn eu hoffi, fel yr amlinellir uchod.

- Gan adlewyrchu'r nifer o sylwadau'n ymwneud â biwrocratiaeth fel rhywbeth nas hoffir yn gyffredinol, cafodd lleihau biwrocratiaeth ei nodi'n aml fel gwelliant posibl gan y caiff ei ystyried fel rhwystr i benderfyniadau a disgresiwn yr unigolyn.

Lleihau nifer a maint y datblygiadau strategol, mentrau a gorchmynion deddfwriaethol. Gwella gwaith rheoli prosiect ar fentrau newydd drwy well blaengynllunio, cyfathrebu ac ymgynghori. Lleihau'r baich biwrocraidd.

Caiff swyddogion eu rhwystro gan fiwrocratiaeth. Nid yw system y gwasanaeth sifil yn galluogi pobl sydd â gwybodaeth i fod mewn sefyllfa i allu gwneud penderfyniadau.

Cânt eu cyfyngu gymaint gan reolau nad ydynt yn caniatáu i unigolion arfer disgresiwn wrth ymdrin ag achosion unigol.

- Thema arall a ddaeth i'r amlwg oedd gwell cyfathrebu a chyswllt o ran amllder, eglurder a meithrin cydberthynas.

Mwy o gyfathrebu rheolaidd a'r wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd.

Cyfathrebu clir a phennu cyfeiriad.

Mwy o gyswllt wyneb yn wyneb.

Gwell cyfathrebu, megis cylchlythyrau rheolaidd a/neu'r wybodaeth ddiweddaraf am raglenni.

Caf wybod am bethau drwy amryw ffyrdd ac mae'n ymddangos bod hyn yn aml ar ddamwain yn hytrach na thrwy ddyluniad. Hoffwn eglurder ar sianeli cyfathrebu.

Dylai mwy o swyddogion fod o gwmpas y lle yn meithrin cydberthnasau a dylent fod yn fwy hygyrch.

- Mynegwyd rhwystredigaeth gan eraill o ganlyniad i ddiffyg gwybodaeth, dealltwriaeth neu werthfawrogiad swyddogion o'u maes gwaith.

Gwell dealltwriaeth o faterion cyn paratoi cyngor / deddfwriaeth. Gwell dealltwriaeth o wahaniaethau gogledd/de, mwy o rybudd ynghylch datblygiadau, mwy o dryloywder ynghylch sut maent yn defnyddio gwybodaeth.

Gwella dealltwriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r hyn y mae penderfyniadau a wneir yn y Cynulliad yn golygu i wasanaethau ar lawr gwlad, ynghyd â'r heriau a wynebwn. Mae hefyd yn bwysig y caiff yr arsylwadau hyn eu hadrodd yn ôl i'r Cynulliad i wella gwasanaethau drwy greu polisiau sy'n fwy addas ac ati, a gwerthfawrogi arfer gorau.

Gwrando ar faterion a phryderon rhanddeiliaid, a'u hystyried. Er bod gennym gyfarfodydd chwarterol, mae diffyg dealltwriaeth o weithio mewn partneriaeth. Byddai'n dda pe sefydlir cyfleoedd blynyddol i swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru weld y realiti a'r heriau a wynebir o ddydd i ddydd.

Drwy adeiladu cydberthnasau â'r sector i ddeall yr hyn ydym a'r hyn a wnawn.

- Cafwyd rhai sylwadau penodol am y broses ymgynghori. Roedd y sylwadau hyn naill ai'n geisiadau i ymgynghori â hwy (ar gam cynharach yn y broses) neu'n mynegi anfodlonrwydd nad oedd ymgynghoriadau'n caniatáu digon o amser na chyfle i adolygu.

Cynnwys rhanddeiliaid allweddol mewn ymgynghoriadau cyn llunio strategaethau / polisiau.

Drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gam cynharach yn y broses, esbonio'r hyn maent eisiau ei wneud ac ystyried opsiynau i'w gyflawni yn hytrach na chyflwyno "fait accompli" a rhoi ychydig iawn o amser i bobl ymateb i geisiadau am sylwadau ac ati.

Cawn ddogfennau ar gyfer ymgynghoriadau a gawsom gyda nhw ymhell ar ôl i benderfyniadau gael eu gwneud. Mae'n ymddangos ein bod yn ôl-ystyriaeth iddynt. Hefyd, mae'r dogfennau hyn yn llawn o dermau busnes a chyfreithiol nad ydynt yn ddealladwy. Dylid cyflwyno crynodeb byr yn hytrach na dogfen faith.

- Roedd galw hefyd am welliannau o ran effeithlonrwydd, ymatebolrwydd ac amserlenni, gyda rhai ymatebwyr yn amlygu terfynau amser a fethwyd.

Byddai'n dda pe glynir wrth derfynau amser ar gyfer cyflwyno dogfennau / contractau / gwybodaeth. O'm profiad i, anaml y glynir wrthynt, os o gwbl.

Gwneud penderfyniadau yn brydlon ac yn rhesymol.

Gellid gwneud pethau'n gyflymach; rwyf hefyd yn credu y gallant ddysgu mwy gan y sector preifat ac o ganlyniad, gwneud pethau'n fwy effeithlon.

- Roedd diffyg eglurder ar strategaeth, polisi a natur cydberthynas rhanddeiliaid â Llywodraeth y Cynulliad yn faes pellach a nodwyd ar gyfer gwelliant posibl.

Mae angen i agweddau ffurfiol ac anffurfiol ar weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru gael eu strwythuro'n well ac mae angen amseru a llywio'r llif gwybodaeth yn well.

Weithiau mae diffyg eglurder ar y math o ymgysylltiad a gynigir; gan amlaf mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig cyfleoedd ymgynghori ond ceir llai o gyfleoedd i ymgysylltu go iawn neu weithio mewn partneriaeth, yn arbennig ynghylch datblygu polisi.

Gall fod dryswch ynghylch cyfrifoldebau adrannol. ... arweiniad mwy eglur ynghylch newid mewn polisi.

Ar brydiau, edrychaf am 'lywio mwy eglur' ac arweiniad o ran gweithredu deddfwriaeth newydd a chanllawiau newydd. Weithiau, mae'r wybodaeth a'r safbwyntiau a ddaw oddi wrth swyddogion rywfaint yn amwys/penagored.

- Roedd rhanddeiliaid eraill yn ymwybodol o achosion lle cafwyd anghysondebau ar draws adrannau Llywodraeth y Cynulliad ac yn galw am fwy o feddwl cydgysylltiedig. Weithiau cafodd hyn ei gysylltu â lleihau achosion o ddyblygu gwaith.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Cynulliad fod yn fwy cydgysylltiedig gan ein bod ni'n aml yn gorfod delio â gwahanol feysydd polisi yn yr un maes.

Siarad gyda'i gilydd - h.y. gwella cyfathrebu o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Nid yw cyswllt cydgysylltiedig yn dda i ddim. Er enghraifft dwy adran yn paratoi strategaethau ar yr un pryd. Dylent siarad gyda'i gilydd ar dir cyffredin cyn cwblhau eu strategaeth.

Nid yw adrannau'r Cynulliad bob amser yn ymwybodol o weithgareddau ei gilydd ac mae angen iddynt fod yn fwy cydgysylltiedig.

- Roedd rhywfaint o alw hefyd am well cysylltiadau neu bresenoldeb y tu allan i Gaerdydd neu Dde Cymru.

Gwell gwerthfawrogiad o heriau ac anghenion ardaloedd lleol y tu allan i Gaerdydd.

Rhyngweithio'n amlach â sefydliadau y tu allan i Gaerdydd.

Efallai y byddai'n well bod y swyddogion yn cael eu gwasgaru o gwmpas Cymru. Cyfarfodydd i weld yn y de ac yn y canolbarth.

- Roedd teimlad ymysg rhai nad oedd Llywodraeth y Cynulliad mor dryloyw ag y dylai/gallai fod ac y dylid rhannu gwybodaeth yn fwy eang.

Bod yn fwy agored ac amserol gydag ymgynghoriadau.

Drwy fod yn fwy agored, tryloyw a hygyrch.

Gallent fod yn fwy agored; mae'n aml iawn yn berthynas rhwng rhiant a phlentyn a dylai fod yn berthynas rhwng dau oedolyn.

Bod yn fwy agored o ran y wybodaeth sydd ganddynt. Bod yn fwy parod i siarad am wahanol bethau.

Bod yn fwy agored gyda'r data sydd ganddynt.

Bod yn fwy parod i rannu gwybodaeth berthnasol gyda'r sefydliadau sydd â diddordeb yn y wybodaeth hynny.

- Bu galw hefyd am eglurder ar strwythurau neu wybodaeth cyswllt Llywodraeth y Cynulliad; ar brydiau cafodd hyn ei gysylltu â newidiadau cyson i strwythur yr adrannau.

Eglurder ynghylch cysylltiadau a strwythurau mewnol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae angen mwy o eglurder ynghylch rôl unigolion; mae'n anodd cael siartiau sefydliadol ganddynt ac maent yn newid yn weddol reolaidd.

Rhifau ffôn amryw bobl - manylion cyswllt haws o fewn yr adrannau. Mae'n anodd iawn cael gwybod pwy yw'r unigolyn cywir i siarad ag ef.

Nid yw'r strwythur yn caniatáu dilyniant o ran cyswllt gan fod pobl yn cael eu symud o gwmpas y cynulliad ac rydym yn colli cydberthnasau da a gymerodd amser i'w sefydlu.

Sianeli cyfathrebu mwy eglur. Yr anhawster pennaf sy'n ein hwynebu yw canfod yr adran neu'r unigolyn mwyaf priodol i gysylltu ag ef.

Mae'n anodd gwybod â phwy i siarad ar faterion penodol. Gwneud rolau a chyfrifoldebau yn fwy tryloyw.

Mae'n anodd iawn cysylltu â'r unigolyn "cywir"; mae gwybodaeth am swyddogion yn wael ac mae'r wefan yn labrinth.

4. FFACTORAU SY'N GWELLA BODDHAD GYDAG YMGYSYLLTIAD Â RHANDEILIAID

4.1 Mae'r adran flaenorol wedi ystyried boddhad cyffredinol gydag ymgysylltiad â rhanddeiliaid a pherfformiad swyddogion ar wahanol agweddau ar ymgysylltiad â rhanddeiliaid. Mae'r adran hon yn ystyried cysylltiadau rhwng y ddau. Hynny yw, pa agweddau ar berfformiad sy'n cael y dylanwad mwyaf ar foddhad cyffredinol y rhanddeiliaid gydag ymgysylltiad Llywodraeth y Cynulliad â rhanddeiliaid?

Canfyddiadau Allweddol

- Y ffactorau allweddol sy'n gwella boddhad cyffredinol gydag ymgysylltiad â rhanddeiliaid - yn nhrefn pwysigrwydd gan gychwyn gyda'r pwysicaf - oedd:

Ffactor	Cynyddodd boddhad gydag ymgysylltiad â rhanddeiliaid
'Ymgysylltu'n weithredol'	... wrth i'r graddau yr ymgysylltodd y swyddogion yn weithredol â rhanddeiliaid gynyddu
'Ymgysylltu mewn ffordd broffesiynol'	... wrth i'r graddau yr ymgysylltodd y swyddogion â rhanddeiliaid mewn ffordd broffesiynol gynyddu
'Newid mewn ansawdd ymgysylltiad â rhanddeiliaid dros y deuddeg mis blaenorol'	... wrth i'r canfyddiad o'r gydberthynas rhwng swyddog a rhanddeiliad (dros y deuddeg mis blaenorol) symud o fod yn 'waeth' i 'yr un peth' i 'well'
'Darparu cyfeiriad strategol'	... wrth i'r graddau y rhoddodd swyddogion gyfeiriad strategol i rhanddeiliaid gynyddu
'Yn ymrwymedig i gyflawni canlyniadau o safon uchel'	... wrth i'r graddau roedd swyddogion yn ymrwymedig i gyflawni canlyniadau o safon uchel gynyddu
'Rhwyddineb ymgysylltu â swyddogion'	... wrth i'r graddau y cafodd rhanddeiliaid hi'n hawdd ymgysylltu â swyddogion gynyddu

- Gan gymharu pwysigrwydd y ffactorau¹² gyda pherfformiad Llywodraeth y Cynulliad¹³ (fel y nodwyd gan rhanddeiliaid), dyrannwyd y ffactorau allweddol i un o'r pedwar 'Maes Gweithredu' canlynol:

Cyfle i wella

Mae'r sefydliad yn perfformio'n wael ar yr agwedd hon o gymharu â'r Meincnod. Mae hefyd yn faes a gaiff effaith fawr ar Ymgysylltiad â Rhanddeiliaid. Mae'n faes sy'n peri pryder a dylid canolbwyntio arno i'w wella.

¹² Yn seiliedig ar ddadansoddiad atchweliad – gweler paragraffau 4.4 a 4.5 ac Atodiad F am fanylion.

¹³ Sgorau perfformio yw'r canrannau cadarnhaol cyfartalog heb eu pwysoli ar gyfer y cwestiynau ym mhob ffactor, neu'r perfformiad cadarnhaol ar gyfer y cwestiwn unigol - gweler Atodiad F am fanylion.

Cryfder

Mae'r sefydliad yn perfformio'n gryf ar yr agwedd hon. Mae hefyd yn faes a gaiff effaith fawr ar Ymgysylltiad â Rhanddeiliaid. Mae'n gryfder felly hyrwyddwch ef - daliwch ati i wneud yr hyn a wnewch!


Maes i'w Fonitro

Mae'r sefydliad yn perfformio'n wael ar yr agwedd hon ond caiff yr agwedd hon effaith gymharol fach ar Ymgysylltiad â Rhanddeiliaid. Cadwch olwg manwl ar y maes hwn gan mai dyma'r ail flaenoriaeth y mae angen rhoi sylw iddi a gallai ddatblygu i fod yn Gyfle i Wella.

Cynnal a Chefnogi

Mae perfformiad y sefydliad yn uwch na'r Meincnod ond nid yw mor dda ag y gallai fod o hyd. Fodd bynnag, mae'n faes a gaiff effaith gymharol fach ar Ymgysylltiad â Rhanddeiliaid. Yn gyntaf, gweithiwch i gynnal ei sefyllfa bresennol yna rhowch gefnogaeth iddo er mwyn ei wella.

Ffactorau allweddol sy'n gwella boddhad gydag ymgysylltiad â rhanddeiliaid: cymharu Effaith a Pherfformiad



Nodi Ffactorau sy'n Gwella Boddhad gydag Ymgysylltiad â Rhanddeiliaid

4.2 Er mwyn nodi ffactorau allweddol sy'n gwella boddhad gydag ymgysylltiad Llywodraeth y Cynulliad â rhanddeiliaid, defnyddiwyd nifer o wahanol dechnegau ystadegol, ac ymhlith y rhai allweddol oedd 'dadansoddiad o ffactorau' a 'atchweliad llinol'.

4.3 Mae'r dechneg ystadegol gyntaf, dadansoddiad o ffactorau, yn nodi cysyniadau cudd, sylfaenol, yn y data drwy grwpio eitemau cysylltiedig i mewn i 'ffactorau'. Yn yr achos hwn, cymhwyswyd dadansoddiad o ffactorau i ddau o gwestiynau craidd yr arolwg - C18, a ofynodd i randdeiliaid nodi i ba raddau mae gosodiadau penodol yn gymwys i swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, a C26, a ofynodd i randdeiliaid nodi pa mor aml roedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn arddangos ymddygiad neu agweddau penodol (gweler Atodiad I i gael testun llawn y cwestiynau). Nodwyd y pedwar ffactor canlynol:

Ffactor	Cwestiynau a gyfrannodd at y ffactor
Ymgysylltu mewn ffordd broffesiynol	C26. eich cynnwys chi ar adeg addas yn y broses bolisi. C26. deall yr hyn yr ydych yn ceisio ei gyflawni. C26. rhannu gwybodaeth yn agored. C26. parchu barn amrywiol eraill. C26. gweithio mewn partneriaeth er mwyn darparu atebion sy'n C26. darparu gwybodaeth gywir a dibynadwy. C26. ymwneud â rhanddeiliaid mewn ffordd broffesiynol. C26. diduedd wrth ymwneud â mudiadau.
Ymgysylltu'n weithredol	C18. Yn bellennig ac amheronol. C18. Allan o gysylltiad. C18. Yn gwrando ar eraill. C18. Yn deall fy sefydliad. C18. Yn ymwneud yn agos â rhanddeiliaid.
Yn ymrwymedig i ganlyniadau o safon uchel	C26. yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ac amcanion. C26. wedi eu hymrwymo i wella'n barhaus. C26. wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel. C26. yn ei gwneud hi'n glir pwy sy'n atebol am y canlyniadau. C18. Yn canolbwyntio ar ddarparu.
Darparu cyfeiriad strategol	C18. Yn gydgyssylltiedig. C18. Yn amharod i arloesi. C18. Yn aneglur ynghylch blaenoriaethau. C18. Yn methu arwain yn effeithiol.

4.4 Adolygwyd gweddill cwestiynau'r arolwg (ac eithrio C26 a C18) i benderfynu a allent fod yn ffactorau posibl sy'n gwella boddhad gydag ymgysylltiad â rhanddeiliaid. Cafodd cwestiynau unigol a nodwyd fel ffactorau posibl sy'n gwella boddhad, yn ogystal â'r pedwar ffactor a nodir uchod, eu rhoi fel newidynnau annibynnol mewn dadansoddiad atchweliad llinol lluosog, a'r newidyn dibynnol oedd 'boddhad cyffredinol gyda'r ffordd mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio â sefydliadau eraill ac yn eu cynnwys' (Ceir manylion llawn am y newidynnau dibynnol ac annibynnol yn Atodiad F).

4.5 Nododd y model atchweliad chwe mater ('ffactorau' o hyn ymlaen) a oedd â chydberthynas ystadegol arwyddocaol â boddhad gydag ymgysylltiad â rhanddeiliaid. Y chwe ffactor arwyddocaol oedd y pedwar ffactor a restrir uchod ynghyd â 'rhwyddineb ymgysylltu â swyddogion' a 'newidiadau yn y ffordd yr oedd swyddogion yn cydweithio â sefydliadau eraill ac yn eu cynnwys'. Mae'r model atchweliad hefyd yn ein galluogi i nodi trefn pwysigrwydd h.y. effaith gymharol y ffactorau hyn o ran gwella boddhad cyffredinol gydag ymgysylltiad.


Ceir manylion y dull o ddadansoddi ffactorau a'r dadansoddiad atchweliad lluosog yn Atodiad F.

Ffactorau Allweddol sy'n Gwella Boddhad gydag Ymgysylltiad â Rhanddeiliaid

4.6 Wedi nodi'r ffactorau sy'n gwella boddhad mae'n bosibl plotio effaith gymharol y ffactorau hyn yn erbyn y perfformiwyd a nodwyd ar gyfer swyddogion Llywodraeth y Cynulliad (gweler Ffigur 4.1, drosodd). Mae'r echelin llorweddol yn nodi effaith gymharol y ffactorau, o isel i uchel. Mae'r echelin fertigol yn dangos sgorau cadarnhaol canrannol gyda rhaniad wedi'i osod ar y gwerth Meincnod a ddewiswyd sef 60%. Mae'r plot yn creu pedwar sector, a cheir argymhellion ar gyfer camau gweithredu yn y dyfodol ar gyfer pob un ohonynt.

- **Cyfleoedd i Wella** - Mae'r sefydliad yn perfformio'n wael ar yr agwedd hon o gymharu â'r Meincnod. Mae hefyd yn faes a gaiff effaith fawr ar Ymgysylltiad â Rhanddeiliaid. Mae'n faes sy'n peri pryder a dylid canolbwyntio arno i'w wella.
- **Cryfder** - Mae'r sefydliad yn perfformio'n gryf ar yr agwedd hon. Mae hefyd yn faes a gaiff effaith fawr ar Ymgysylltiad â Rhanddeiliaid. Mae'n gryfder felly hyrwyddwch ef - daliwch eti i wneud yr hyn a wnewch!.
- **Maes i'w fonitro** - Mae'r sefydliad yn perfformio'n wael ar yr agwedd hon ond caiff yr agwedd hon effaith gymharol fach ar Ymgysylltiad â Rhanddeiliaid. Cadwch olwg manwl ar y maes hwn gan mai dyma'r ail flaenoriaeth y mae angen rhoi sylw iddi a gallai ddatblygu i fod yn Gyfle i Wella.
- **Cynnal a Chefnogi** - Mae perfformiad y sefydliad yn uwch na'r Meincnod ond nid yw mor dda ag y gallai fod o hyd. Fodd bynnag, mae'n faes a gaiff effaith gymharol fach ar Ymgysylltiad â Rhanddeiliaid. Yn gyntaf, gweithiwch i gynnal ei sefyllfa bresennol yna rhwch gefnogaeth iddo er mwyn ei wella.


Ffigur 4.1 Ffactorau allweddol sy'n gwella boddhad gydag ymgysylltiad â rhanddeiliaid: cymharu Effaith a Pherfformiad



4.7 Ceir crynodeb pellach o'r plot pedrant uchod yn y 'dangosfwrdd' (gweler Ffigur 4.2 drosodd). Cafodd y ddau ffactor sy'n fwyaf allweddol o ran gwella boddhad gydag ymgysylltu - 'ymgysylltu'n weithredol' ac 'ymgysylltu mewn ffordd broffesiynol' - sgorau perfformio ychydig yn is na'r lefel meincnod o 60% (56% yr un). Felly caiff y ffactorau hyn eu diffinio fel meysydd sydd angen eu gwella. Roedd perfformiad swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ar ddarparu cyfeiriad strategol yn wael mewn perthynas â'r rhan fwyaf o ffactorau eraill gyda dim ond tua dau o bob pump o ymatebwyr (38%) yn nodi sgôr gadarnhaol. Fodd bynnag, gellid ei ystyried fel ail flaenoriaeth o ran gwelliant gan nad yw'n ffactor pwysig iawn o safbwynt gwella boddhad gydag ymgysylltiad.

4.8 Cafwyd y sgorau perfformio mwyaf cadarnhaol ar gyfer 'rhwyddineb ymgysylltiad' â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad (78%) a bod yn 'ymrwymedig i gyflawni canlyniadau o safon uchel' (60%). Fodd bynnag, caiff y ffactorau hyn lai o effaith ar foddhad cyffredinol gydag ymgysylltiad ac felly dylai'r camau gweithredu ganolbwyntio ar gynnal lefelau perfformiad.

Ffigur 4.2 Cymharu Pwysigrwydd ffactorau allweddol sy'n gwella boddhad gydag ymgysylltiad â rhanddeiliaid gyda pherfformiad Llywodraeth y Cynulliad – Dadansoddiad dangosfwrdd



4.9 Mae meintiau'r sampl yn caniatáu i ni ystyried tair adran yn unigol. Dyma'r adrannau y bu'n bosibl gwneud y dadansoddiad hwn ar eu cyfer:


- Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.
- Economi a Thrafnidiaeth.
- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

4.10 Fel gyda'r canlyniadau cyffredinol, 'ymgysylltu'n weithredol' oedd y ffactor cryfaf i ddwy o'r tair adran hyn. Yr eithriad yw rhanddeiliaid a oedd mewn cysylltiad ag Adran yr Economi a Thrafnidiaeth - y ffactor cryfaf oedd 'C17. Yn ystod y 12 mis diwethaf, a ydych chi'n credu bod y ffordd y gwnaeth swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda a chynnwys mudiadau eraill wella, gwaethygu, neu aros yr un peth?'. Mae hyn yn awgrymu bod canfyddiad o sefyllfa sy'n gwella neu'n gwaethygu wedi cael mwy o ddylanwad ar foddhad y grŵp hwn nag unrhyw beth arall. Mae Atodiad C yn dangos y dadansoddiad 'dangosfwrdd' ar gyfer pob un o'r tair adran hyn, gan ystyried perfformiad o ran y ffactorau sy'n gwella boddhad cyffredinol gydag ymgysylltiad o fewn pob un o'r adrannau hyn a'r camau gweithredu sy'n dilyn.


ATODIAD A: CANFYDDIADAU O SWYDDOGION LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU YN ÔL ADUAN

Fel y dangosir yn Adran 3, mae Ffigur A1 yn dangos canfyddiadau cyffredinol o swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer rhanddeiliaid a fu mewn cysylltiad â swyddogion yn y 12 mis blaenorol tra bod Ffigurau A2 i A12 yn rhoi crynodeb o'r canfyddiadau yn ôl adran. Caiff y tablau hyn eu dangos ar gyfer adrannau lle bu mwy na 50 o ymatebwyr mewn cysylltiad yn y 12 mis blaenorol yn unig.


*Ffigur A1: Canfyddiadau o swyddogion Llywodraeth y Cynulliad: Cyffredinol
(Sylfaen: [pawb](#) a fu mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis diwethaf)*



Ffigur A2 Argraff o swyddogion Llywodraeth y Cynulliad
(Sylfaen: Y rhai a fu mewn cysylltiad â'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn bennaf)




Ffigur A3 Argraff o swyddogion Llywodraeth y Cynulliad
(Sylfaen: Y rhai a fu mewn cysylltiad ag Adran yr Economi a Thrafnidiaeth yn bennaf)



Ffigur A4 Argraff o swyddogion Llywodraeth y Cynulliad
(Sylfaen: Y rhai a fu mewn cysylltiad ag Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn bennaf)


C: Hoffwn i chi ddweud wrthai i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y canlyno yn cyd-fynd â'ch argraffiadau o swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru?



Sylfaen: Pawb a fu mewn cysylltiad â'r adran yn y 12 mis diwethaf (191)


Ffigur A5 Argraff o swyddogion Llywodraeth y Cynulliad
(Sylfaen: Y rhai a fu mewn cysylltiad â'r Adran Gyllid yn bennaf)

C: Hoffwn i chi ddweud wrthai i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y canlyno yn cyd-fynd â'ch argraffiadau o swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru?




Sylfaen: Pawb a fu mewn cysylltiad â'r adran yn y 12 mis diwethaf (96)

Ffigur A6 Argraff o swyddogion Llywodraeth y Cynulliad
(Sylfaen: Y rhai a fu mewn cysylltiad â'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn bennaf)




Ffigur A7 Argraff o swyddogion Llywodraeth y Cynulliad
(Sylfaen: Y rhai a fu mewn cysylltiad ag Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd yn bennaf)



Ffigur A8 Argraff o swyddogion Llywodraeth y Cynulliad
(Sylfaen: Y rhai a fu mewn cysylltiad â'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn bennaf)


C: Hoffwn i chi ddweud wrthai i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y canlyno yn cyd-fynd â'ch argraffiadau o swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru?



Sylfaen: Pawb a fu mewn cysylltiad â'r adran yn y 12 mis diwethaf (125)


Ffigur A9 Argraff o swyddogion Llywodraeth y Cynulliad
(Sylfaen: Y rhai a fu mewn cysylltiad â'r Adran Materion Gwledig yn bennaf)

C: Hoffwn i chi ddweud wrthai i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y canlyno yn cyd-fynd â'ch argraffiadau o swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru?




Sylfaen: Pawb a fu mewn cysylltiad â'r adran yn y 12 mis diwethaf (94)

Ffigur A10 Argraff o swyddogion Llywodraeth y Cynulliad
(Sylfaen: Y rhai a fu mewn cysylltiad â'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn bennaf)




Ffigur A11 Argraff o swyddogion Llywodraeth y Cynulliad
(Sylfaen: Y rhai a fu mewn cysylltiad ag Adnoddau Dynol yn bennaf)



*Ffigur A12 Argraff o swyddogion Llywodraeth y Cynulliad
(Sylfaen: Y rhai a fu mewn cysylltiad ag Adran y Prif Weinidog yn bennaf)*

C: Hoffwn i chi ddweud wrthai i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y canlyno yn cyd-fynd â'ch argraffiadau o swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru?



Sylfaen: Pawb a fu mewn cysylltiad â'r adran yn y 12 mis diwethaf (55)

ATODIAD B: FFACTORAU LLWYDDIANT CRITIGOL: CANFYDDIADAU YN ÔL ADRAN

Mae'r data yn y tablau yn yr adran hon yn crynhoi i ba raddau y teimlai'r rhanddeiliaid fod pob un o'r 'ffactorau llwyddiant critigol' yn gymwys i swyddogion Llywodraeth y Cynulliad.

Mae Ffigur B1 yn crynhoi'r ymatebion ar lefel gyffredinol (h.y. cyfanswm y rhai a atebodd y cwestiynau ynghylch adran neu adrannau a ddewiswyd). Mae Ffigurau B2 i B9, yn crynhoi'r data yn ôl adran. Dim ond ar gyfer adrannau y penderfynodd 50 neu fwy o randdeiliaid ateb cwestiynau amdanynt y darparwyd dadansoddiad ar lefel adrannol.

*Ffigur B1: Perfformiad o ran Ffactorau Llwyddiant Critigol - POB UN
(Y graddau mae pob un yn gymwys i swyddogion yn [adran] yn ymarferol, %).*

	Bob amser neu'n aml %	Weithiau, yn anaml neu byth %
Maent yn ymwneud â rhanddeiliaid mewn ffordd broffesiynol	78	17
Maent wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel	71	22
Maent yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ac amcanion	65	29
Maent yn ddiuedd wrth ymwneud â mudiadau	61	27
Maent yn darparu gwybodaeth gywir a dibynadwy	61	34
Maent wedi eu hymrwymo i wella'n barhaus	59	30
Maent yn parchu barn amrywiol eraill	57	33
Maent yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn darparu atebion sy'n gweithio	51	44
Maent yn ei gwneud hi'n glir pwy sy'n atebol am y canlyniadau	50	42
Maent yn deall yr hyn yr ydych yn ceisio ei gyflawni	50	47
Maent yn rhannu gwybodaeth yn agored	46	49
Maent yn eich cynnwys chi ar adeg addas yn y broses bolisi	42	53
Maent yn gweithio gyda chi er mwyn cynnwys dinasyddion wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus	35	51
Maent yn arloesol ac yn fodlon mentro	23	67
<i>Sylfaen: pawb a atebodd gwestiynau am unrhyw adran (1,121)</i>		

Ffigur B2: Perfformiad o ran Ffactorau Llwyddiant Critigol - Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
(Y graddau mae pob un yn gymwys i swyddogion yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn ymarferol, %).

	Bob amser neu'n aml %	Weithiau, yn anaml neu byth %
Maent yn ymwneud â rhanddeiliaid mewn ffordd broffesiynol	76	23
Maent wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel	72	22
Maent yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ac amcanion	68	27
Maent wedi eu hymrwymo i wella'n barhaus	63	28
Maent yn ddiuedd wrth ymwneud â mudiadau	57	35
Maent yn darparu gwybodaeth gywir a dibynadwy	56	41
Maent yn parchu barn amrywiol eraill	55	37
Maent yn ei gwneud hi'n glir pwy sy'n atebol am y canlyniadau	52	43
Maent yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn darparu atebion sy'n gweithio	45	52
Maent yn rhannu gwybodaeth yn agored	42	56
Maent yn deall yr hyn yr ydych yn ceisio ei gyflawni	41	58
Maent yn eich cynnwys chi ar adeg addas yn y broses bolisi	36	61
Maent yn gweithio gyda chi er mwyn cynnwys dinasyddion wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus	32	57
Maent yn arloesol ac yn fodlon mentro	22	72
<i>Sylfaen: pawb a atebodd gwestiynau am yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (246)</i>		

Ffigur B3: Perfformiad o ran Ffactorau Llwyddiant Critigol - Adran yr Economi a Thrafnidiaeth
(Y graddau mae pob un yn gymwys i swyddogion Adran yr Economi a Thrafnidiaeth yn ymarferol, %).

	Bob amser neu'n aml %	Weithiau, yn anaml neu byth %
Maent yn ymwneud â rhanddeiliaid mewn ffordd broffesiynol	72	21
Maent yn ddiuedd wrth ymwneud â mudiadau	63	25
Maent yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ac amcanion	61	30
Maent wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel	60	28
Maent yn parchu barn amrywiol eraill	53	33
Maent yn darparu gwybodaeth gywir a dibynadwy	53	40
Maent yn deall yr hyn yr ydych yn ceisio ei gyflawni	49	44
Maent wedi eu hymrwymo i wella'n barhaus	45	37
Maent yn eich cynnwys chi ar adeg addas yn y broses bolisi	40	53
Maent yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn darparu atebion sy'n gweithio	44	48
Maent yn ei gwneud hi'n glir pwy sy'n atebol am y canlyniadau	39	50
Maent yn rhannu gwybodaeth yn agored	35	59
Maent yn gweithio gyda chi er mwyn cynnwys dinasyddion wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus	32	49
Maent yn arloesol ac yn fodlon mentro	13	73
<i>Sylfaen: pawb a atebodd gwestiynau am Adran yr Economi a Thrafnidiaeth (126)</i>		

Ffigur B4: Perfformiad o ran Ffactorau Llwyddiant Critigol - Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
(Y graddau mae pob un yn gymwys i swyddogion Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn ymarferol, %).

	Bob amser neu'n aml %	Weithiau, yn anaml neu byth %
Maent yn ymwneud â rhanddeiliaid mewn ffordd broffesiynol	74	13
Maent wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel	64	21
Maent yn ddiuedd wrth ymwneud â mudiadau	59	22
Maent yn darparu gwybodaeth gywir a dibynadwy	59	31
Maent yn parchu barn amrywiol eraill	54	30
Maent wedi eu hymrwymo i wella'n barhaus	54	31
Maent yn deall yr hyn yr ydych yn ceisio ei gyflawni	52	38
Maent yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ac amcanion	50	37
Maent yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn darparu atebion sy'n gweithio	49	40
Maent yn ei gwneud hi'n glir pwy sy'n atebol am y canlyniadau	46	43
Maent yn rhannu gwybodaeth yn agored	44	48
Maent yn eich cynnwys chi ar adeg addas yn y broses bolisi	44	51
Maent yn gweithio gyda chi er mwyn cynnwys dinasyddion wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus	30	46
Maent yn arloesol ac yn fodlon mentro	27	61

Sylfaen: pawb a atebodd gwestiynau am Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (90)

Ffigur B5: Perfformiad o ran Ffactorau Llwyddiant Critigol - Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
(Y graddau mae pob un yn gymwys i swyddogion yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymarferol, %).

	Bob amser neu'n aml %	Weithiau, yn anaml neu byth %
Maent yn ymwneud â rhanddeiliaid mewn ffordd broffesiynol	77	20
Maent wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel	73	23
Maent yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ac amcanion	69	28
Maent yn ddiuedd wrth ymwneud â mudiadau	60	32
Maent wedi eu hymrwymo i wella'n barhaus	60	36
Maent yn darparu gwybodaeth gywir a dibynadwy	57	41
Maent yn parchu barn amrywiol eraill	55	41
Maent yn ei gwneud hi'n glir pwy sy'n atebol am y canlyniadau	50	47
Maent yn deall yr hyn yr ydych yn ceisio ei gyflawni	47	52
Maent yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn darparu atebion sy'n gweithio	43	53
Maent yn rhannu gwybodaeth yn agored	43	53
Maent yn eich cynnwys chi ar adeg addas yn y broses bolisi	39	60
Maent yn gweithio gyda chi er mwyn cynnwys dinasyddion wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus	31	63
Maent yn arloesol ac yn fodlon mentro	19	76

Sylfaen: pawb a atebodd gwestiynau am yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (173)

Ffigur B6: Perfformiad o ran Ffactorau Llwyddiant Critigol - Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd
(Y graddau mae pob un yn gymwys i swyddogion Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd yn ymarferol, %).

	Bob amser neu'n aml %	Weithiau, yn anaml neu byth %
Maent yn ymwneud â rhanddeiliaid mewn ffordd broffesiynol	89	10
Maent wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel	82	14
Maent yn darparu gwybodaeth gywir a dibynadwy	82	16
Maent yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ac amcanion	82	17
Maent wedi eu hymrwymo i wella'n barhaus	78	16
Maent yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn darparu atebion sy'n gweithio	72	26
Maent yn ddiduedd wrth ymwneud â mudiadau	68	20
Maent yn ei gwneud hi'n glir pwy sy'n atebol am y canlyniadau	67	30
Maent yn parchu barn amrywiol eraill	66	25
Maent yn deall yr hyn yr ydych yn ceisio ei gyflawni	60	38
Maent yn rhannu gwybodaeth yn agored	59	40
Maent yn eich cynnwys chi ar adeg addas yn y broses bolisi	55	44
Maent yn gweithio gyda chi er mwyn cynnwys dinasyddion wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus	53	40
Maent yn arloesol ac yn fodlon mentro	37	54

Sylfaen: pawb a atebodd gwestiynau am Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd (87)

Ffigur B7: Perfformiad o ran Ffactorau Llwyddiant Critigol – Yr Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad
(Y graddau mae pob un yn gymwys i swyddogion yn Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn ymarferol, %).

	Bob amser neu'n aml %	Weithiau, yn anaml neu byth %
Maent yn ymwneud â rhanddeiliaid mewn ffordd broffesiynol	85	13
Maent wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel	72	26
Maent yn ddiduedd wrth ymwneud â mudiadau	68	25
Maent yn parchu barn amrywiol eraill	68	28
Maent yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ac amcanion	68	30
Maent yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn darparu atebion sy'n gweithio	62	34
Maent wedi eu hymrwymo i wella'n barhaus	58	36
Maent yn rhannu gwybodaeth yn agored	58	38
Maent yn darparu gwybodaeth gywir a dibynadwy	57	40
Maent yn ei gwneud hi'n glir pwy sy'n atebol am y canlyniadau	53	45
Maent yn eich cynnwys chi ar adeg addas yn y broses bolisi	51	47
Maent yn deall yr hyn yr ydych yn ceisio ei gyflawni	45	53
Maent yn gweithio gyda chi er mwyn cynnwys dinasyddion wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus	43	45
Maent yn arloesol ac yn fodlon mentro	36	57

Sylfaen: pawb a atebodd gwestiynau am yr Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad (53)

*Ffigur B8: Perfformiad o ran Ffactorau Llwyddiant Critigol – Yr Adran Materion Gwledig
(Y graddau mae pob un yn gymwys i swyddogion yr Adran Materion Gwledig yn ymarferol, %).*

	Bob amser neu'n aml %	Weithiau, yn anaml neu byth %
Maent yn ymwneud â rhanddeiliaid mewn ffordd broffesiynol	79	18
Maent yn darparu gwybodaeth gywir a dibynadwy	69	28
Maent yn ddiduedd wrth ymwneud â mudiadau	68	24
Maent wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel	67	29
Maent yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ac amcanion	60	38
Maent wedi eu hymrwymo i wella'n barhaus	57	35
Maent yn parchu barn amrywiol eraill	57	39
Maent yn deall yr hyn yr ydych yn ceisio ei gyflawni	51	47
Maent yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn darparu atebion sy'n gweithio	50	49
Maent yn ei gwneud hi'n glir pwy sy'n atebol am y canlyniadau	50	44
Maent yn eich cynnwys chi ar adeg addas yn y broses bolisi	44	53
Maent yn rhannu gwybodaeth yn agored	42	54
Maent yn gweithio gyda chi er mwyn cynnwys dinasyddion wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus	33	50
Maent yn arloesol ac yn fodlon mentro	19	74
<i>Sylfaen: pawb a atebodd gwestiynau am yr Adran Materion Gwledig (72)</i>		


*Ffigur B9: Perfformiad o ran Ffactorau Llwyddiant Critigol – Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
(Y graddau mae pob un yn gymwys i swyddogion yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn ymarferol, %).*

	Bob amser neu'n aml %	Weithiau, yn anaml neu byth %
Maent yn ymwneud â rhanddeiliaid mewn ffordd broffesiynol	84	7
Maent wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel	80	12
Maent yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ac amcanion	64	28
Maent wedi eu hymrwymo i wella'n barhaus	62	28
Maent yn parchu barn amrywiol eraill	62	29
Maent yn darparu gwybodaeth gywir a dibynadwy	62	30
Maent yn ddiduedd wrth ymwneud â mudiadau	61	25
Maent yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn darparu atebion sy'n gweithio	58	35
Maent yn deall yr hyn yr ydych yn ceisio ei gyflawni	54	42
Maent yn ei gwneud hi'n glir pwy sy'n atebol am y canlyniadau	49	41
Maent yn rhannu gwybodaeth yn agored	49	45
Maent yn eich cynnwys chi ar adeg addas yn y broses bolisi	46	51
Maent yn gweithio gyda chi er mwyn cynnwys dinasyddion wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus	33	54
Maent yn arloesol ac yn fodlon mentro	22	64
<i>Sylfaen: pawb a atebodd gwestiynau am yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (69)</i>		

Matrics Boddhad Ffactorau Llwyddiant Critigol

Dangosir y gydberthynas rhwng pwysigrwydd pob ffactor llwyddiant critigol i randdeiliaid a pherfformiad Swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer pob ffactor yn Ffigur B10, isod. I sicrhau y gellir cymharu, safonwyd sgorau pob priodoledd.¹⁴

Ffigur B10 Ffactorau llwyddiant critigol: pwysigrwydd a nodwyd yn erbyn perfformiad.



Gan edrych ar Ffigur B10, mae pwysigrwydd yn rhedeg o'r chwith i'r dde, felly po fwyaf i'r dde y lleolwyd priodoledd, y pwysicaf yw i randdeiliaid. Mae perfformiad yn rhedeg o'r gwaelod i'r brig, a pho uchaf y lleolwyd eitem ar y siart, y gorau y barnwyd perfformiad y swyddogion o ran y priodoledd hwnnw. Rhannwyd y siart yn bedrannau, ar sail sgorau sy'n is ac yn uwch na chyfartaledd y sgorau. Mae i'r priodoleddau yn y pedrant 'cryfderau' bwysigrwydd cymharol uchel a pherfformiad cymharol uchel. Mae i'r priodoleddau yn y pedrant 'cynnal' berfformiad uwch na'r cyfartaledd, ond pwysigrwydd is na'r cyfartaledd. Mae i'r rhai yn y pedrant 'blaenoriaethau allweddol i'w datblygu' bwysigrwydd uchel ond perfformiad isel. Mae'r pedrant ar waelod ochr chwith y siart, 'angen gwaith ond nid yn flaenoriaeth', yn cynnwys y priodoleddau hynny sydd yn is na'r cyfartaledd o ran pwysigrwydd a pherfformiad. Mae i'r meysydd sydd 'angen gwaith ond nid yn flaenoriaeth' berfformiad is na'r cyfartaledd ond pwysigrwydd is na'r cyfartaledd hefyd.

I wella ymgysylltiad rhwng rhanddeiliaid ac adrannau Llywodraeth y Cynulliad, mae angen i swyddogion ganolbwyntio ar gymryd camau a fydd yn gwella perfformiad o ran y priodoleddau hynny a ystyrir yn bwysig. Yn benodol, dylai adrannau flaenoriaethu'r meysydd hynny sy'n bwysicach na'r cyfartaledd ond sydd â pherfformiad is na'r cyfartaledd - y 'Blaenoriaethau Allweddol i'w Datblygu'.

¹⁴Mae'r cwestiynau pwysigrwydd ar raddfa pum pwynt ac mae'r cwestiynau pwysigrwydd ar raddfa pedwar pwynt. I bob un, troswyd y sgorau i sgorau-z. Mae sgôr-z yn trosi set o werthoedd i ddosraniad normal. Caiff gwerthoedd sydd yn uwch na'r cyfartaledd sgôr-z gadarnhaol, a chaiff gwerthoedd sydd yn is na'r cyfartaledd sgôr-z negyddol.


Dyma'r Blaenoriaethau Allweddol i'w Datblygu:

- 'Maent yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn darparu atebion sy'n gweithio' - y pumed priodoledd pwysicaf, y chweched perfformiad gwaethaf: hefyd yn flaenoriaeth allweddol yn 2006. (Pwynt I, Ffigur B10).
- 'Maent yn deall yr hyn rydych yn ceisio ei gyflawni' – yr ail briodoledd pwysicaf, y pumed perfformiad gwaethaf: hefyd yn flaenoriaeth allweddol yn 2006. (Pwynt J, Ffigur B10).
- 'Maent yn rhannu gwybodaeth yn agored' – yr wythfed priodoledd pwysicaf, y pedwerydd perfformiad gwaethaf. Yn 2006 roedd hwn yn is na'r cyfartaledd o ran perfformiad, ac ychydig yn is na'r cyfartaledd o ran pwysigrwydd. (Pwynt K, Ffigur B10).
- 'Maent yn eich cynnwys chi ar adeg addas yn y broses bolisi' – y trydydd priodoledd pwysicaf, y trydydd perfformiad gwaethaf: hefyd yn flaenoriaeth allweddol yn 2006. (Pwynt L, Ffigur B10).



ATODIAD C: DADANSODDIAD O'R FFACTORAU ALLWEDDOL: CANFYDDIADAU YN ÔL ADRAN

Mae maint y sampl wedi caniatáu i ni ddadansoddi'r ffactorau allweddol ar gyfer tair adran. Cyflwynir dadansoddiadau'r ffactorau allweddol mewn 'dangosfyrddau' sy'n crynhoi canlyniadau'r dadansoddiadau atchweliad lluosog a roddir yn llawn yn Atodiad F.


Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Arolwg Rhanddeiliaid Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008 Dangosfwrdd yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau			
Ffactorau sy'n gwella boddhad rhanddeiliaid gydag ymgysylltiad	Effaith (ar foddhad gydag ymgysylltiad)	Perfformiad (sgôr gadarnhaol)	Gweithred
	Mwyaf		
Ff2 ymgysylltu'n weithredol		51%	Cyfle i wella
Ff4 darparu cyfeiriad strategol		35%	Cyfle i wella
Ff1 ymgysylltu mewn ffordd broffesiynol		51%	Cyfle i wella
C17. Newid yn y ffordd mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cydweithio â sefydliadau eraill a'u cynnwys yn y 12 mis diwethaf ('llawer gwaeth' i 'dim newid' i 'lawer gwell'), lle mae 'gwell' yn gwella boddhad ymhellach.		29%	Monitro
C20a.3 y prif ddulliau a ddefnyddir i ryngweithio â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru? - Adroddiadau\ cynigion\ cyflwyniadau\ dogfennau ysgrifenedig eraill (mae rhyngweithio drwy ddulliau ysgrifenedig yn lleihau sgorau boddhad)		dd/g	Cynnal a chefnogi
	Lleiaf		
Perfformiad yw'r canrannau cadarnhaol cyfartalog heb eu pwysoli ar gyfer y cwestiynau ym mhob ffactor, neu'r perfformiad cadarnhaol ar gyfer y cwestiwn unigol.			
Mae pum ffactor allweddol sy'n gwella boddhad rhanddeiliaid gydag ymgysylltiad, a nodwyd gan y dadansoddiad atchweliad, a chaiff pob un ohonynt effaith sylweddol ar foddhad rhanddeiliaid gydag ymgysylltu. Maent wedi'u trefnu yn ôl pwysigrwydd gyda'r pwysicaf ar y brig.			

Yr Economi a Thrafnidiaeth

Arolwg Rhanddeiliaid Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008 Dangosfwrdd Adran yr Economi a Thrafnidiaeth			
Ffactorau sy'n gwella boddhad rhanddeiliaid gydag ymgysylltiad	Effaith (ar foddhad gydag ymgysylltiad)	Perfformiad (sgôr gadarnhaol)	Gweithred
C17. Newid yn y ffordd mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cydweithio â sefydliadau eraill a'u cynnwys yn y 12 mis diwethaf ('llawer gwaeth' i 'dim newid' i 'lawer gwell'), lle mae 'gwell' yn gwella boddhad ymhellach.	Mwyaf 		Cyfle i wella
Ff2 ymgysylltu'n weithredol	Lleiaf		Cyfle i wella
Perfformiad yw'r canrannau cadarnhaol cyfartalog heb eu pwysoli ar gyfer y cwestiynau ym mhob ffactor, neu'r perfformiad cadarnhaol ar gyfer y cwestiwn unigol.			
Mae dau ffactor allweddol sy'n gwella boddhad rhanddeiliaid gydag ymgysylltiad, a nodwyd gan y dadansoddiad atchweliad, a chaiff y ddau ohonynt effaith sylweddol ar foddhad rhanddeiliaid gydag ymgysylltu. Maent wedi'u trefnu yn ôl pwysigrwydd gyda'r pwysicaf ar y brig.			

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Arolwg Rhanddeiliaid Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008 Dangosfwrdd yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol			
Ffactorau sy'n gwella boddhad rhanddeiliaid gydag ymgysylltiad	Effaith (ar foddhad gydag ymgysylltiad)	Perfformiad (sgôr gadarnhaol)	Gweithred
	Mwyaf		
Ff2 ymgysylltu'n weithredol		56%	Cyfle i wella
Ff1 ymgysylltu mewn ffordd broffesiynol		56%	Cyfle i wella
C17. Newid yn y ffordd mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cydweithio â sefydliadau eraill a'u cynnwys yn y 12 mis diwethaf ('llawer gwaeth' i 'dim newid' i 'lawer gwell'), lle mae 'gwell' yn gwella boddhad ymhellach.		29%	Cyfle i wella
Ff4 darparu cyfeiriad strategol		38%	Cyfle i wella
	Lleiaf		
Perfformiad yw'r canrannau cadarnhaol cyfartalog heb eu pwysoli ar gyfer y cwestiynau ym mhob ffactor, neu'r perfformiad cadarnhaol ar gyfer y cwestiwn unigol.			
Mae pedwar ffactor allweddol sy'n gwella boddhad rhanddeiliaid gydag ymgysylltiad, a nodwyd gan y dadansoddiad atchweliad, a chaiff pob un ohonynt effaith sylweddol ar foddhad rhanddeiliaid gydag ymgysylltu. Maent wedi'u trefnu yn ôl pwysigrwydd gyda'r pwysicaf ar y brig.			

ATODIAD D: RHANDDEILIAID LLAI DIWEDDAR: CANFYDDIADAU

Gofynnwyd cyfres fer o gwestiynau i ymatebwyr nad oeddent wedi bod mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis diwethaf. Gofynnwyd y cwestiynau hyn i ddarganfod pa bryd y bu'r cysylltiad diwethaf (os o gwbl), y rhesymau canfyddedig dros ddiffyg cysylltiad, a fu unrhyw swyddogion Llywodraeth y Cynulliad mewn cysylltiad â hwy yn y flwyddyn flaenorol a ph'un a fyddent yn hoffi cael mwy o gysylltiad ai peidio.

Amser Ers y Cysylltiad Diwethaf

Roedd tua un o bob deg (11% neu 134 o unigolion) o ymatebwyr heb gael unrhyw gysylltiad â Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis blaenorol.

O'r ymatebwyr na fu mewn cysylltiad yn y 12 mis diwethaf, nododd bron hanner (49%) nad oeddent erioed wedi bod mewn cysylltiad ag aelod o staff Llywodraeth Cynulliad Cymru) ac nid oedd 6% yn gwybod pryd oedd y tro diwethaf iddynt fod mewn cysylltiad (Gweler Ffigur D1, isod). Bu tua un o bob pump (19%) o'r rhai na fu mewn cysylltiad yn y 12 mis blaenorol, mewn cysylltiad 'rhwyng blwyddyn a dwy flynedd yn ôl', 15% 'rhwyng dwy a thair blynedd yn ôl' a bu 10% mewn cysylltiad 'dros dair blynedd yn ôl'.

*Ffigur D1 Amser ers y cysylltiad diwethaf
(Sylfaen: y rhai na fu mewn cysylltiad yn y 12 mis blaenorol)*

	2008
Amser ers y cysylltiad diwethaf	%
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	19
Rhwng dwy a thair blynedd yn ôl	15
Dros dair blynedd yn ôl	10
Byth	49
Ddim yn gwybod	6
Cyfanswm	100

Er i'r rhanddeiliaid hyn nodi nad oeddent wedi bod mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis blaenorol, nododd 24% ohonynt fod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi cysylltu â hwy yn y 12 mis blaenorol. Ymhlith y rhesymau dros gysylltu â hwy roedd ymateb i ymgynghoriad neu gyfrannu at ymarferiad ymgynghori (12%), mynychu cynhadledd / gweithdy (5%), neu drwy ohebiaeth ysgrifenedig (3%). Cysylltwyd â 4% am reswm arall (gweler Ffigur D2, isod).

*Ffigur D2 Cyfran y cysylltwyd â hwy gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis diwethaf
(Sylfaen: y rhai na fu mewn cysylltiad yn y 12 mis blaenorol)*

	2008
	%
Do – er mwyn ymateb i ymgynghoriad neu i gyfrannu at ymarferiad ymgynghori	12
Do – er mwyn mynychu cynhadledd neu weithdy	5
Do - drwy ohebiaeth ysgrifenedig	3
Do - rheswm neu ddull arall	3
Naddo, ni chysylltwyd	72
Ddim yn gwybod / methu cofio	4
Cyfanswm	100

Rheswm dros Ddiffyg Cyswllt

Nododd mwyafrif helaeth y 'rhanddeiliaid llai diweddar' (74%) mai'r rheswm nad oeddent wedi bod mewn cysylltiad oedd am nad oedd angen iddynt (gweler Ffigur D3, isod). Ymhlith y rhesymau eraill dros ddiffyg cysylltiad roedd bod mewn swydd neu rôl newydd (5%), mai cyfrifoldeb rhywun arall oedd (4%), y ffaith nad yw penderfyniadau Llywodraeth y Cynulliad yn effeithio ar eu gwaith (2%) a'u bod mewn cysylltiad ond drwy gorff arall (2%).

*Ffigur D3 Prif resymau dros ddiffyg cysylltiad
(Sylfaen: y rhai na fu mewn cysylltiad yn y 12 mis blaenorol)*


Prif resymau dros ddiffyg cysylltiad*	2008 %
Ni fu angen / dim rheswm dros fod mewn cysylltiad	74
Mewn swydd / rôl newydd	5
Cyfrifoldeb rhywun arall yn y sefydliad	4
Nid yw penderfyniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn effeithio ar fy ngwaith / gwaith fy sefydliad	2
Cysylltiad drwy gorff/sefydliad arall	2

* Gallai ymatebwyr roi mwy nag un ateb.

Dyhead i gael Mwy o Gysylltiad?

Roedd dros hanner (55%) o'r 'rhanddeiliaid llai diweddar' yn fodlon ar lefel bresennol y cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, fodd bynnag, dywedodd lleiafrif sylweddol o tua un o bob tri (36%) y byddent yn hoffi mwy o gysylltiad â dim ond 3% a ddywedodd y byddent yn hoffi llai.

Ffigur D4 Cyfran yr ymatebwyr a hoffai fwy/llai o gysylltiad â Swyddogion Llywodraeth y Cynulliad



ATODIAD E: METHODOLEG

Diffiniad o Randdeiliad

At ddibenion cymharu, defnyddiwyd yr un diffiniad o randdeiliad yn arolwg 2008 â'r hyn a ddefnyddiwyd ar gyfer arolwg 2006.

Cadwyd y diffiniad o randdeiliad yn fwriadol eang i sicrhau bod yr astudiaeth mor gynhwysol â phosibl. Yn benodol, mae'r diffiniad yn cynnwys y grwpiau canlynol sy'n ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad:

- arbenigwyr;
- partneriaid darparu;
- cyrff/grwpiau buddiant sy'n ymwneud ag un pwnc;
- awdurdodau lleol;
- sefydliadau sector gwirfoddol;
- sefydliadau sector preifat;
- sefydliadau academiaidd;
- cyrff proffesiynol;
- adrannau llywodraeth y DU a llywodraethau gwledydd tramor.

Nid oedd y diffiniad o randdeiliad yn cynnwys Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad na Dinasyddion Cymru. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad raglen ymchwil ar wahân i edrych ar Farn Dinasyddion.

Creu Ffrâm y Sampl

Fel yn 2006, i nodi'r sampl ar gyfer arolwg 2008, gofynnodd Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol (OCSRO) i bob adran o fewn Llywodraeth y Cynulliad ddarparu rhestr o unigolion y'u hystyrir yn rhanddeiliaid.

Nid oedd cyfyngiad ar nifer yr unigolion o bob sefydliad sy'n rhanddeiliad y gellid cyfweld â hwy gan fod yr arolwg yn anelu at gasglu barn rhanddeiliaid *unigol* yn hytrach na chasglu safbwyntiau sefydliadol neu gorfforaethol.

Ar gyfer pob rhanddeiliad, gofynnwyd i'r is-adrannau ddarparu manylion cyswllt llawn gan gynnwys teitl swydd, teil y sefydliad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost a chyfeiriad post. Yn ystod y cyfnod y coladwyd y wybodaeth, bu cynrychiolwyr o OCSRO yn cysylltu ag is-adrannau i annog cymaint o ymateb â phosibl a darparu arweiniad ychwanegol lle'r oedd angen.

Gan i'r amryw gronfeydd data gael eu dychwelyd mewn amryw fformatau, gwnaed gwaith ailfformatio sylweddol â llaw gan OCSRO a Beaufort Research. Yna lluniwyd un gronfa ddata Microsoft Excel yn cynnwys holl fanylion cyswllt y rhanddeiliaid a oedd ar gael (cyfanswm o 7,513 o gofnodion). Yna defnyddiwyd y gronfa ddata, gyson, gynhwysfawr a hylaw hon fel y pwynt dechreuol ar gyfer glanhau data, dad-ddyblygu a samplu.

Mae'r canlynol yn crynhoi'r camau o lanhau a dad-ddyblygu'r gronfa ddata a gymerwyd:

- 1) *Enw Cyswllt Ar Goll.* - Lle'r oedd hynny'n bosibl, cafwyd enwau cyswllt oedd ar goll o gyfeiriadau e-bost (e.e. enwcyntaf.cyfenw@beaufortresearch.co.uk).
- 2) *Gwybodaeth Gyswllt Ar Goll* – I sicrhau y cyflawnwyd cyswllt a chyfranogiad mwyaf posibl y sampl, ym mhob achos lle'r oedd cyfeiriad e-bost neu rif ffôn (neu'r ddau) ar goll, gwnaed chwiliadau ar y we i gasglu'r wybodaeth hon (yn seiliedig ar wybodaeth arall a oedd ar gael e.e. enw cyswllt a sefydliad).
- 3) *Gwiriadau Strwythurol.* – Defnyddiwyd y gwiriadau hyn i archwilio dilysrwydd y rhifau ffôn a'r cyfeiriadau e-bost a ddarparwyd:
 - a. a yw'r rhif ffôn yn cynnwys y nifer cywir o ddigidau?
 - b. a yw'r rhif ffôn yn dechrau â "0"?
 - c. a yw'r cod STD yn ddilys?
 - d. a yw'r cyfeiriad e-bost yn cynnwys "@"?
- 4) *Dileu cysylltiadau anghanfyddadwy.* - Yn dilyn camau 1 i 3, dilëwyd cofnodion o'r gronfa ddata mewn achosion lle na ellid nodi unigolyn cyswllt o'r wybodaeth a oedd ar gael (h.y. roedd yr enw cyswllt a'r swydd a'r cyfeiriad e-bost unigol ar goll).
- 5) *Sampl annefnyddadwy.* - Hyd yn oed pan roedd enw cyswllt, dilëwyd y cofnodion hynny lle nad oedd yn bosibl cysylltu hefyd (h.y. roedd rhif ffôn, cyfeiriad e-bost a chyfeiriad post oll ar goll).
- 6) *Dileu Cysylltiadau Anghymwys.* – Fel y nodwyd yn adran 1.3.1, ni ddylid fod wedi cynnwys Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad, swyddogion, gweinidogion na Chyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad a unwyd (e.e. Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru ac ELWa) yn y cronfeydd data a ddarparwyd. Dilëwyd y rhai a ddarparwyd drwy gamgymeriad drwy gynnal chwiliadau helaeth ar enw sefydliad (gan gynnwys acronymau). Cynhaliwyd chwiliadau pellach i nodi cyfeiriadau e-bost a oedd yn gorffen '.wales.gsi.gov.uk' neu a oedd yn amlwg o CNLICau. Dilëwyd manylion rhanddeiliaid o sefydliadau anweithredol hefyd, megis Siambr Fasnach Caerdydd ac Antur Dwyrdd.

Wedi cwblhau'r holl gamau glanhau uchod, lleihawyd y gronfa ddata ddefnyddiadwy i 6,278 o gofnodion. Y cam olaf o ran glanhau'r data oedd dileu cofnodion a oedd wedi'u dyblygu. Canfuwyd y cofnodion hyn ar dri cham:

- i) Dileu cofnodion yn awtomatig lle mae'r cyfeiriadau e-bost yr un peth.
- ii) Dilëwyd cofnodion oedd â'r un enw cyswllt a rhif ffôn gan ddefnyddio system awtomatig. Gan y gallai mwy nag un unigolyn o fewn yr un sefydliad fod yn gymwys i gael cyfweliad, nid oedd chwiliadau am rifau ffôn dyblyg yn unig yn bosibl.
- iii) I orffen, gwnaed chwiliadau â llaw yn seiliedig ar enw cyswllt yn unig. Wedi trefnu'r gronfa ddata yn ôl enw cyswllt, gwnaed penderfyniad, o edrych ar wybodaeth gyswllt arall a oedd yn gynwysedig yn y gronfa ddata, p'un a oedd unigolion â'r un enw yn ddyblygebau dilys.

Wedi cwblhau camau glanhau'r data a dad-ddyblygu, roedd y gronfa ddata'n cynnwys cyfanswm o **4,716** o gysylltiadau cymwys.

Samplu

Er mwyn cyflawni'r nifer fwyaf posibl o gyfweiliadau, defnyddiwyd y sampl cyfan a oedd ar gael ar gyfer adrannau a oedd â nifer gymharol fach o randdeiliaid. Ar gyfer adrannau a oedd â mwy na 500 o randdeiliaid, dewiswyd hyd at 500 o gysylltiadau ar hap o'r gronfa ddata. Mae Ffigur F1, isod, yn crynhoi'r sampl a oedd ar gael ar gyfer pob adran, nifer yr unigolion a ddewiswyd i'w cyfweld, a nifer terfynol y cyfweiliadau a gyflawnwyd.

Ffigur F1 Samplu a nifer y cyfweiliadau a gyflawnwyd yn ôl adran

Adran	Sampl ar Gael	Sampl a Ddewiswyd ¹⁵	Cyfweiliadau a Gyflawnwyd
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	770	500	188
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	1,033	500	182
Materion Gwledig a Threftadaeth	920	500	173
Yr Economi a Thrafnidiaeth	724	500	166
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	295	295	153
Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd	313	313	134
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	352	352	119
Polisi Strategol, Deddfwriaeth a Chyfathrebu	121	121	59
Adnoddau Dynol	96	96	49
Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	71	71	39
Gwybodaeth a Gwasanaethau Corfforaethol	21	21	11
Cyllid	0	0	0
Gwasanaethau Cyfreithiol	0	0	0
<i>Cyfanswm</i>	<i>4,716</i>	<i>3,269</i>	<i>1,273</i>

Datblygu'r Holiadur

Gan fod angen cynhyrchu data i'w cymharu â data 2006, arhosodd nifer o'r cwestiynau craidd yn ddigynnewid ar gyfer 2008. Am ragor o wybodaeth am ddyluniad yr holiadur, gan gynnwys datblygu'r Ffactorau Llwyddiant Critigol, gweler adroddiad Arolwg Rhanddeiliaid 2006 (ar gael yn:

<http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/40382313/293077/1266940/StakeholderEng?lang=en> neu

<http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/40382313/293077/1266940/StakeholderCym?lang=en>). Fodd bynnag, i sicrhau bod yr holiadur yn parhau'n berthnasol, adolygwyd cynnwys yr holiadur mewn cydweithrediad ag OCSRO a gwnaed mân newidiadau, er enghraifft i adlewyrchu'r ffaith bod rhai Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad (CNLCau) wedi'i huno â Llywodraeth y Cynulliad yn 2006.

Gofynnwyd cwestiynau ynghylch y meysydd allweddol canlynol i ymatebwyr a fu mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis blaenorol (yn nhrefn yr holiadur):

- 1) Gallu yn yr iaith Gymraeg;
- 2) Gwybodaeth broffil am yr ymatebydd a'r sefydliad;
- 3) Natur y gydberthynas â Llywodraeth y Cynulliad (e.e. p'un a oedd sefydliad y rhanddeiliad yn cael ei ariannu gan Lywodraeth y Cynulliad);
- 4) Gwelliannau posibl i gydberthnasau â rhanddeiliaid;
- 5) Boddhad cyffredinol gydag ymgysylltiad â swyddogion;
- 6) Canfyddiadau o'r ymgysylltiad â swyddogion;
- 7) Dulliau cysylltu a rhwyddineb cysylltu;
- 8) Lefel y cysylltiad â swyddogion;
- 9) Graddau perfformiad ymgysylltiad â rhanddeiliaid ar gyfer swyddogion adrannol ar 'ffactorau llwyddiant critigol'.

¹⁵ Ni ddefnyddiwyd rhan o'r sampl oherwydd cyrhaeddwyd nifer targed y cyfweiliadau ar gyfer yr adran.

Cwblhawyd cyfweiliad byrrach gan ymatebwyr na fu mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis blaenorol. Nid oedd yr holiadur byrrach yn holi am brofiad a boddhad gydag ymgysylltiad ac, yn hytrach, roedd yn cynnwys cwestiynau ynghylch y meysydd allweddol canlynol (yn nhrefn yr holiadur):

- 1) Gallu yn yr iaith Gymraeg;
- 2) Lefel y cysylltiad â swyddogion;
- 3) Rhesymau dros ddiffyg cysylltiad;
- 4) P'un a gysylltodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad â'r unigolyn am unrhyw reswm yn y 12 mis blaenorol;
- 5) P'un a hoffai'r unigolyn mwy/llai o gysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad;
- 6) Gwelliannau posibl i gydberthnasau â rhanddeiliaid;
- 7) Gwybodaeth broffil am yr ymatebydd a'r sefydliad.

Holwyd am yr un pynciau allweddol yn 2006; fodd bynnag, addaswyd neu diweddarwyd rhai o'r cwestiynau mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cynulliad Cymru lle'r oedd yn briodol. Ceir crynodeb o'r prif addasiadau i'r holiadur isod:

- Ar gyfer y cwestiwn am gydberthynas y sefydliad â Llywodraeth y Cynulliad, ychwanegwyd y cod 'derbyn gwasanaethau';
- Ychwanegwyd cwestiwn i ganfod p'un a dderbyniodd sefydliad yr ymatebydd grant oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad yn y tair blynedd diwethaf ai peidio;
- Adolygwyd y cwestiwn a ofynnai p'un a oedd sefydliad yr ymatebydd yn asiantaeth i Lywodraeth y Cynulliad i ganfod p'un a oedd y sefydliad yn cael ei 'reoleiddio' gan Lywodraeth y Cynulliad;
- Rhoddwyd 'yn ymwneud yn agos â rhanddeiliaid' yn lle'r gosodiad 'yn ymrwymedig i gyflawni amcanion' yn y cwestiwn am nodweddion sefydliadol. Hefyd addaswyd yr opsiynau ymateb o 'ie' / 'na' i raddfa lefel o gytundeb (o gytuno'n gryf i lawr i anghytuno'n gryf) i helpu dadansoddiad amlamrywedd (o ffactorau gwella);
- Ychwanegwyd cwestiynau newydd i ganfod yr hoff ddull o ryngweithio, rhwyddineb ymgysylltu â Llywodraeth y Cynulliad a rhwyddineb cael gafael ar wybodaeth am Lywodraeth y Cynulliad;
- Symleiddwyd cwestiwn blaenorol ar ddewis iaith ar gyfer amryw ddulliau cysylltu (ac amledd gallu ymgysylltu yn newis iaith y rhanddeiliaid) i ganfod dewis iaith yn gyffredinol ac amledd gallu defnyddio'r dewis iaith;
- Cwestiwn am 'adrannau y cysylltwyd â hwy': diweddarwyd rhestr yr adrannau i adlewyrchu'r strwythur newydd;
- Dilëwyd y gosodiad 'sicrhau y caiff penderfyniadau eu llywio'n dda' o restr y ffactorau llwyddiant critigol ac ychwanegwyd 'wedi eu hymrwymo i wella'n barhaus' a 'gweithio gyda chi er mwyn cynnwys dinasyddion wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus';
- Addaswyd cwestiynau penagored i gael gwybodaeth gyffredinol am yr hyn yr oedd rhanddeiliaid yn ei hoffi a'r hyn nad ydynt yn ei hoffi am gydweithio â swyddogion.

Dull yr Arolwg

Fel yn 2006, datblygwyd dull aml-fodd ar gyfer arolwg 2008 fel y gallai ymatebwyr ddewis y dull a oedd fwyaf cyfleus iddynt hwy. Gallai'r ymatebydd ddewis cyfweiliad dros y ffôn a weinyddwyd gan gyfwelydd neu gyfweiliad ar-lein a gwblhawyd gan yr unigolyn. Roedd camau allweddol y dull aml-fodd hwn fel a ganlyn:

Peilot

Cynhaliwyd arolwg peilot rhwng 21^{ain} a 24^{ain} Ionawr 2008 i sicrhau y deallwyd unrhyw gwestiynau newydd a chadarnhau'r gwersi a ddysgwyd o arolwg 2006. I gyd, cynhaliwyd 16 o gyfweiliadau dros y ffôn a chwblhawyd yr arolwg ar-lein gan 15 o ymatebwyr. Cwblhawyd pedwar cyfweiliad yn Gymraeg i brofi dealltwriaeth o gyfieithiad yr holiadur. Ni ddaeth unrhyw faterion mawr i'r amlwg o ganlyniad i'r peilot a dim ond mân addasiadau oedd angen eu gwneud cyn cynnal y prif arolwg.

Llythyr Cyflwyno

Os oedd cyfeiriad post ar gael, anfonwyd llythyr dwyieithog i randdeiliaid gan Beaufort Research ymlaen llaw. Roedd y llythyr, â chyfeiriad yr Ysgrifennydd Parhaol arno, yn cyflwyno'r arolwg a'r rhesymau drosto ac yn esbonio sut i gyfranogi. Cynhyrchwyd pedwar fersiwn o'r llythyr i gwmpasu'r posibilïadau canlynol:

- i) Lle'r oedd y cyfeiriad e-bost a'r rhif ffôn ar gael;
- ii) Lle'r oedd rhif ffôn ond nid oedd cyfeiriad e-bost ar gael;
- iii) Lle'r oedd cyfeiriad e-bost ond nid oedd rhif ffôn ar gael;
- iv) Lle nad oedd cyfeiriad e-bost na rhif ffôn ar gael.

Yn achos rhanddeiliaid lle nad oedd cyfeiriad e-bost na rhif ffôn ar gael, pan gysylltwyd gyntaf, rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr ddarparu'r manylion cyswllt hyn er mwyn iddynt allu cwblhau'r arolwg yn eu dewis ffordd (CATI - ffôn neu CAWI - ar-lein).

Cyfweiliadau dros y Ffôn gyda Chymorth Cyfrifiadur (CATI)

Wedi anfon y llythyr cyflwyno, cysylltwyd â'r holl randdeiliaid yr oedd rhif ffôn ar gael ar eu cyfer, ac nad oeddent eisoes wedi cwblhau'r arolwg ar-lein, gan gyfwelydd o Beaufort er mwyn cynnal arolwg dros y ffôn. Gwnaed sawl ymgais i gysylltu â phob rhanddeiliad a gwnaed apwyntiadau lle'r oedd angen. Os nad oeddent yn fodlon cyfranogi dros y ffôn, atgoffwyd ymatebwyr y gellid cwblhau'r cyfweiliad ar-lein hefyd.

Cynhaliwyd yr holl gyfweiliadau o gyfleuster CATI (Cyfweiliadau dros y Ffôn gyda Chymorth Cyfrifiadur) Beaufort Research yn ein pencadlys yng nghanol Caerdydd. Cynigwyd cyfweiliadau yn yr iaith Gymraeg i'r holl randdeiliaid a siaradai Gymraeg ac roedd o leiaf un cyfwelydd a siaradai Gymraeg ar gael i gynnal cyfweiliadau bob amser.

Cwblhawyd cyfanswm o 929 o gyfweiliadau dros y ffôn. Ar gyfartaledd, cymerodd y cyfweiliad 18 munud i'w gwblhau dros y ffôn.

Cyfweliadau dros y We gyda Chymorth Cyfrifiadur (CAWI)

I alluogi'r nifer fwyaf posibl i gyfranogi, anfonwyd e-bost cyflwyno dwyieithog i'r holl randdeiliaid yr oedd cyfeiriad e-bost ar gael ar eu cyfer gan ailadrodd yr hyn a nodwyd yn y llythyr a anfonwyd at y rhai yr oedd cyfeiriad post ar gael ar eu cyfer. Roedd yr e-bost yn cynnwys dolen gyswllt unigol i gyfranogi yn yr arolwg ar-lein, naill ai yn Gymraeg neu Saesneg.

Lle'r oedd cyfeiriad e-bost ar gael ond dim rhif ffôn, roedd yr e-bost yn hysbysu'r ymatebwyr y gallent gael cyfweliad dros y ffôn pe dymunent drwy roi rhif ffôn i Beaufort Research.

Cwblhawyd cyfanswm o 344 o holiaduron ar-lein.

Cyfradd Ymateb a Rhesymau Dros Beidio ag Ymateb

Er bod methodoleg yr arolwg yn seiliedig ar samplu cwota a heb ei ddylunio i fod yn sampl rhagddetholedig, cyfrifwyd cyfradd ymateb o tua 60%. Cyfrifwyd y gyfradd ymateb drwy rannu maint y sampl a gyflawnwyd â'r sampl a ddefnyddiwyd¹⁶. Mae'r gyfradd ymateb gymharol uchel yn dangos lefel uchel o gymhelliant ymhlith rhanddeiliaid i gyfranogi.

Mae Ffigur E2 yn crynhoi canlyniadau galwadau terfynol y sampl CATI. Dim ond 135 o'r 2,971 (neu 5%) o'r rhai y ceisiwyd cysylltu â hwy dros y ffôn a wrthododd gymryd rhan yn yr arolwg yn llwyr.

Ffigur E2 Canlyniadau galwadau terfynol - sampl ffôn (Sylfaen: sampl CATI -2,971)

Canlyniad Galwadau Terfynol	2008
Cyfweliad llwyddiannus	929
Sampl heb ei ddefnyddio neu gwota wedi'i gyflawni	487
Bwriadu cwblhau'r arolwg ar-lein (gwrthod cwblhau cyfweliad CATI)	328
Rhif yn annilys neu rif anghywir neu rif ffacs	201
Dim ateb neu beiriant ateb neu'r llinell yn brysor o hyd	168
Gwrthod	135
Rhoi cynnig arall wedyn neu apwyntiad wedi'i wneud	133
Eisoes wedi cwblhau'r arolwg ar-lein	107
I ffwrdd yn ystod cyfnod y gwaith maes	110
Enw'r cyswllt ddim yn hysbys neu wedi marw, wedi ymddeol, wedi symud neu wedi rhoi'r gorau i fasnachu	104
Enw cyswllt dyblyg	77
Anghymwys	32
